# YSGOL CYBI

CRIST - CYMUNED - CARIAD



LLAWLYFR YSGOL

2025-26

www.ysgolcybi.cymru

Esgobaeth Bangor
The Diocese of Bangor

**Esgobaeth Bangor** / Addoli Duw / Tyfu'r Eglwys / Caru'r byd
**The Diocese of Bangor** / Worshipping God / Growing the Church / Loving the world

Annwyl Riant/Warchodwr

Cafodd mwy nag un ym mhob pump o ysgolion Cymru a Lloegr eu sefydlu gan yr Eglwys Anglicanaidd. Mae'r Eglwys yn parhau i ymwneud ag addysg a lles plant mewn ysgolion. Yn Esgobaeth Bangor mae un ar bymtheg o ysgolion eglwysig, sy'n rhan o deulu o ysgolion gwirfoddol yma ac yn esgobaethau eraill Cymru.

Yn eu hymwneud ag addysgu plant mae gan ysgolion eglwysig nodwedd arbennig; mae'r ymdeimlad eu bod yn rhan o deulu mwy yn eu hatgoffa o nod yr Eglwys wrth eu sefydlu. Bwriadwyd yr ysgolion hyn i wasanaethu eu cymunedau lleol, nid y teuluoedd Cristnogol sydd yn anfon eu plant iddynt yn unig. Mae llywodraethwyr a staff ysgolion eglwysig yn gobeithio y bydd pawb sydd â chysylltiad uniongyrchol â'r ysgolion hynny yn teimlo eu bod yn aelodau o gymuned addysgiadol sydd yn gofalu'n gariadus am bob aelod ohoni.

Mae llywodraethwyr a staff ysgolion eglwysig hefyd yn argyhoeddedig bod cyfraniad rhieni/gwarchodwyr at addysg eu plant yn hanfodol. Cydnabyddir bod cydweithrediad adeiladol rhwng yr athrawon a'r rhieni/gwarchodwyr yn gymorth i blant ddatblygu yn yr ysgol.

Mae ysgolion eglwysig yn elwa ar gefnogaeth yr Awdurdod Addysg Lleol ac y mae'r Esgobaeth hon yn gwerthfawrogi'r bartneriaeth sydd rhyngddi ag Adrannau Addysg Siroedd Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn. Yn naturiol, mae Adran Addysg yr Esgobaeth, trwy ei Swyddogion Addysg ac Ymwelwyr yr Esgob hefyd yn cynghori ysgolion eglwysig. Mae gan ysgolion eglwysig ddau neu fwy o lywodraethwyr sylfaenol sydd yn cael eu penodi gan yr Eglwys, ac un o'u prif ddyletswyddau ar y Corff Llywodraethol yw gofalu bod ethos Cristnogol yr ysgol yn cael ei warchod.

Gobeithio y bydd eich plentyn/plant yn hapus yn yr ysgol hon ac yn darganfod bod yma gymuned ofalgar a chyfeillgar fydd yn ei alluogi/eu galluogi i dyfu a blodeuo. Gobeithio y bydd ef/hi/nhw hefyd yn yr un modd, yn gallu cyfrannu at fywyd yr ysgol.

Yr eiddoch yn gywir

+Andrew Bangor

**Y Gwir Barchedig Andrew John, Esgob Bangor**

✉ Tŷ'r Esgob, Ffordd Garth Uchaf, Bangor, Gwynedd, LL57 2SS
☏ 01248 362895 bishop.bangor@churchinwales.org.uk

YR EGLWYS YNG NGHYMRU THE CHURCH IN WALES

# CROESO

Diolch am gymryd yr amser i ganfod beth sydd gennym i'w gynnig yn Ysgol Cybi. Ysgol Gynradd Gydaddysgol, Wirfoddol yr Eglwys yng Nghymru a Reolir ydym ar gyfer disgyblion 3-11 oed.

Mae dewis ysgol ar gyfer eich plentyn yn benderfyniad pwysig, a gobeithiaf fod yr wybodaeth sydd yn y llawlyfr hwn yn eich helpu i gyrraedd y penderfyniad cywir ar gyfer eich teulu.

Yn Ysgol Cybi, anelwn at gynnig addysg o'r ansawdd uchaf mewn amgylchedd gofalgar. Rydym yn gallu darparu ar gyfer 617 o blant, mewn tua ugain o ddosbarthiadau prif lif.

Agorwyd Ysgol Cybi yn 2017. Mae'r safle'n cyfuno adeilad brics coch Edwardaidd wedi ei adnewyddu sy'n gartref i'r plant iau, gydag adeilad newydd dau lawr modern ar gyfer y plant 5-11 oed.

Mae arwyddlun yr ysgol yn anelu at gyfleu'r hyn yr ydym yn sefyll amdano fel ysgol. Mae Mynydd Tŵr, y morglawdd a'r goleudy yn pwysleisio'r cysylltiadau agos yr anelwn at eu meithrin gyda'n cymuned leol, tra bod y groes yn pwysleisio pwysigrwydd y gwerthoedd, moesau ac ethos Cristnogol yr anelwn at eu hyrwyddo a'u dathlu fel ysgol.

Darllenwch ymlaen os gwelwch yn dda. Os ydych yn dal yn ansicr, neu os hoffech drefnu i ddod i'n gweld i chi gael gweld eich hunain beth sydd gennym i'w gynnig, mae croeso i chi gysylltu â derbynfa'r ysgol.

Mr Owain L Roberts

Pennaeth

## CYNNWYS


**Mynediad**
Ymuno â'n hysgol
Tud 5

**Cwrdd â'r Tîm**
Rolau a chyfrifoldebau staff
Tudalen 8

**Arferion Dyddiol**
Diwrnod arferol yn ein hysgol
Tudalen 11

**Gwisg**
Beth i'w wisgo
Tudalen 12

**Arweiniad ar Salwch**
Yr amser yr argymhellir i fod i ffwrdd o'r ysgol
Tudalen 13


YSGOL CYBI
CRIST - CYMUNED - CARIAD



YSGOL CYBI

CRIST - CYMUNED - CARIAD

# MYNEDIAD

Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymuno â'n hysgol pan fyddant yn blant ifanc iawn. Gall blant ymuno â'n dosbarth Meithrin yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed, a phlant ymuno â'n dosbarth Derbyn ar y 1af o Fedi wedi iddynt droi'n bedair. Mae meithrinfa ar y safle ar gyfer plant iau. Byddwn yn edrych ar bob gwasanaeth mewn mwy o fanylder ar y dudalen hon

## AR GYFER PLANT SY'N 2.5 OED

Mae'r plant ieuengaf ar ein safle yn cael mynediad at wasanaeth a ddarperir gan ein partneriaid gofal plant a blynyddoedd cynnar, *Mudiad Meithrin.* Maent yn cynnig sesiynau bore a phrynhawn, yn ogystal â gwasanaeth cofleidiol dros amser cinio. Tra bod y *Mudiad Meithrin* yn cynnig y gwasanaeth yma ar safle Ysgol Cybi nid ydynt o dan reolaeth y Pennaeth na Corff Llywodraethu yr ysgol. Am fwy o wybodaeth cysylltwch gyda *Mudiad Methrin* drwy brif switsfwrdd yr ysgol neu drwy ymweld *â'i* swyddfa.

## AR GYFER PLANT SYDD YN 3 OED

Caiff ein dosbarthiadau Meithrin rhan amser eu rhedeg gan staff yr ysgol, ac maent yn rhedeg am ddwy awr bob dydd. Bydd eich plentyn mewn grŵp fydd yn cyfarfod unai rhwng 9am-11am bob bore, neu rhwng 1pm-3pm bob prynhawn. Mae'n bosibl i blant o bob *grwp* fynychu sesiynau *Mudiad Meithrin hefyd,* drwy dalu am wasanaeth gofal plant ychwanegol. Gall blant ymuno â'n dosbarthiadau Meithrin yn y tymor yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Yr Awdurdod Lleol sy'n delio â phob cais am fynediad i'r ysgol, beth bynnag oedran y plant.

## AR GYFER PLANT SYDD YN 4 OED

Mae plant sydd eisoes yn bedair oed ar y 1af o Fedi yn gymwys am fynediad i'n dosbarthiadau Derbyn. Hwn yw ein dosbarth llawn amser cyntaf. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw'r 1af o Chwefror bob blwyddyn a caiff y broses ei gweinyddu gan yr Awdurdod Lleol. Mae'n angenrheidiol i bob disgybl wneud cais am le yn ein dosbarth Derbyn, p'run ai ydyn nhw wedi cael lle yn ein dosbarth Meithrin ai pheidio.

## TROSGLWYDDO O YSGOL ARALL

Yn dilyn ymlaen o'n dosbarthiadau Meithrin a Derbyn, mae plant yn symud drwy'r ysgol mewn grwpiau blwyddyn wedi eu rhifo o 1-6. O dro i dro, bydd plant yn trosglwyddo ysgol er enghraifft, os yw teulu wedi symud cartref i ardal wahanol. Yn yr achosion hyn, anogwn rhieni i gysylltu gyda Derbynfa'r ysgol er mwyn trefnu taith o amgylch yr ysgol, ond byddwn yn pwysleisio bod y drefn geisiadau wedi ei reoli gan Swyddog Mynediad yr Awdurdod Lleol. Gellir cael hyd i ffurflenni cais i ymuno ag ysgol ym Môn, neu i drosglwyddo rhwng ysgolion ym Môn ar wefan Cyngor Sir Ynys Môn neu drwy gais i'r Swyddog Mynediad, (01248 752915). Gan mai Cymraeg yw prif iaith ein hysgol, mae'n hanfodol bod y plant sy'n ymuno â ni yn gallu



cyfathrebu'n effeithiol. Bydd siaradwyr di-Gymraeg sy'n ymuno â'n dosbarthiadau Dysgu Sylfaen fel arfer yn pigo'r iaith i fyny yn naturiol yn ystod eu misoedd cyntaf yn yr ysgol. Disgwylir i blant hŷn sy'n ymuno â'n dosbarthiadau Blwyddyn 3>6 fynychu cwrs trochi'r Gymraeg mewn uned ddalgylch arbennig sydd wedi'i lleoli yn ein hysgol ni. Mae'r profiad yma'n hynod o werthfawr yn datblygu sgiliau allweddol, yn caniatau mynediad a gwerthfawrogiad o ddiwylliant cyfoethog yn ogystal ag hyrwyddo taith ddysgu'r disgyblion tuag at amcanion ein Cwricwlwm I Gymru.

## CYNHWYSIAD A CHYDRADDOLDEB

Rydyn ni'n falch o'r amgylchedd croesawgar a gofalgar ydyn ni'n ddarparu i bawb. Mae hyn yn cynnwys plant ag anghenion ychwanegol neu anableddau. Mae'r broses ar gyfer derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol yr un fath â'r un yr amlinellir uchod, er mae'n bosib y bydd rhaid i ni gwrdd â rhieni ac asiantaethau eraill cyn y dyddiad cychwyn er mwyn sicrhau fod gennym bopeth ar waith i ddarparu'n llawn ar gyfer eu hanghenion. Cyfeirir rhai plant oed cyn-ysgol gan ymwelwyr iechyd i uned asesiad cyn-ysgol yr Awdurdod, a elwir yn Uned ABC yn Llangefni cyn dechrau yn yr ysgol.

# EIN CWRICWLWM YSGOL

Ein nod yw cyflwyno cwricwlwm i ysgogi ac ysbrydoli ein dysgwyr. Mae'r ddarpariaeth yn ymgorffori arddull sy'n gynyddol lleol a disgybl ganolog tra'n boddhau gofynion statudol 'Cwricwlwm I Gymru', (statudol Medi 2022).

## CAM DYSGU SYLFAEN

Caiff y Cam Dysgu Sylfaen ei gamddehongli yn aml fel 'dysgu drwy chwarae'. Mewn gwirionedd, mae ein staff yn anelu at ddarparu cymysgedd eang o weithgareddau ar gyfer ein plant iau - rhai ohonynt yn ffurfiol ac yn draddodiadol fel dysgu i ffurfio llythyren neu air yn eistedd wrth fwrdd, tra bod eraill yn annog ein dysgwyr i gymhwyso eu dysgu a datblygu eu creadigrwydd. Mae Cam Dysgu Sylfaen effeithiol yn darparu cyfleoedd dyddiol i blant herio eu hunain ac ymarfer sgiliau drwy bob math o weithgareddau ymarferol. Anelwn at ddarparu sesiynau mae'r plant yn eu mwynhau, ond sydd â ffocws bendant ar ddatblygu sgiliau penodol o 6 Maes Dysgu a Phrofiad, Cwricwlwm I Gymru neu'r Fframweithiau Llythrennedd, Rhifedd neu Ddigidol cysylltiedig.

## BLWYDDYN 3 - 6

Dyma'r term ddefnyddir ar gyfer addysgu plant 7-11 oed. Unwaith eto, rydym yn seilio ein darpariaeth ar ofynion Cwricwlwm I Gymru a'i Feysydd Dysgu a Phrofiad (MDaPh) eang. Fel rhan o'r gofynion statudol cyfredol, rydym yn sicrhau cyfleoedd i ddisgyblion atgyfnerthu a chymhwyso eu dysgu mewn Rhifedd, Llythrennedd a Chymwysedd Digidol mewn gwaith thematig ac ar draws y MDaPh.

## LLAIS DISGYBLION

Mae sicrhau bod disgyblion yn cael 'llais' yng nghyfeiriad eu dysgu yn bwysig i ni. Rydym yn annog plant i gyfrannu tuag at gynllun tymhorol eu dosbarthiadau, gan gynnwys rhannu syniadau, tasgau ac i ofyn y cwestiynau anodd hynny yr hoffent gael ateb iddynt. Mae'r disgyblion hefyd yn cael eu haddysgu i adolygu, myfyrio ac awgrymu ffyrdd o wella eu dysgu. Drwy roi llais cryf i ddisgyblion a datblygu eu hyder a'u gallu i'w ddefnyddio byddant yn tyfu i fod yn ddysgwyr annibynnol sy'n gallu gwneud penderfyniadau da am eu dyfodol eu hunain.

## CYFOETHOGI

Rydym yn edrych yn barhaus am ffyrdd newydd a chyffrous i gyfoethogi ein cwricwlwm ysgol. 'Rydym yn manteisio ar gyfleoedd lleol i ymestyn dysgu'r disgyblion e.e. Dysgu awyr agored drwy *Anglesey Adventures*, gwersi cerdd, sesiynau *Nofio Diogel*, gweithdai codio, a nifer fawr o ymweliadau addysgol lleol eraill yn ardal Caergybi. 'Rydym hefyd yn trefnu amrwyiaeth o berfformiadau, cyflwyniadau a gweithdai ar ein safle ysgol ein hunain, yn cynnwys ymweliadau gan artistiaid, awduron a grwpiau drama.

## ALL-GYRSIOL

Mae nifer fawr o gyfleoedd a chlybiau all-gyrsiol ar gael i ddisgyblion. Ymysg y clybiau yma mae pêl-droed, darllen, athletau, canu, dawnsio i enwi dim ond ambell un. Mae 'Clwb Yr Urdd', ar gyfer aelodau Urdd Blynyddoedd 3>6, wedi profi'n boblogaidd iawn yn yr ysgol. Mae'r sefydliad cenedlaethol hwn yn annog plant i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg mewn cyd-destunau cymdeithasol, digwyddiadau a chystadlaethau gan gynnwys yr Eisteddfod. Mae digyblion blynyddoedd 3>6 yn cael cynnig ymweliadau dros nos i ganolfannau'r Urdd megis Glan-llyn a Llangrannog.

## POLISI IAITH

Rydym yn dilyn polisi iaith yr Awdurdod Lleol, drwy roi pwyslais ar ennill fedrau Cymraeg yn gynnar yng nghyfnod plentyn yn yr ysgol, cyn cyflwyno Saesneg ar ddiwedd y Cam Dysgu Sylfaen. Anelwn at greu dysgwyr dwyieithog sy'n parchu eu hetifeddiaeth ac sy'n gallu cael mynediad at y gweithlu proffesiynol lleol os dymunant wneud hynny yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio'r ysgol fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg.

## MEDDYLFRYD O DWF

Rydym yn addysgu gwytnwch ac yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at heriau o oed ifanc gan ddefnyddio strategaethau sy'n seiliedig ar ymchwil Dr Carol Dweck. Sylweddololdd bod rhai plant yn wydn tra bod eraill i weld yn digalonni dros unrhyw rwystr neu fethiant. Wedi astudio ymddygiad miloedd o blant datblygodd Dr Dweck y term 'Meddylfryd Segur a Meddylfryd o Dwf' i ddisgrifio credo sylfaenol pobl am ddysgu a deallusrwydd. Pan fo pobl a phlant yn credu eu bod yn medru datblygu yn ddeallusol, yn ymateb i anhawsterau fel heriau ac yn deall bod ymdrech yn gryfder, mae graddfeydd cynnydd a chyrhaeddiad yn codi.

# DATA YSGOL

Er nad yw ysgolion y sector cynradd bellach yn defnyddio data cymharol diwedd cyfnod allweddol, rydym yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys profion cenedlaethol rhifedd a darllen. Defnyddir yr wybodaeth hon yn effeithiol i lywio ein cynllunio.

Presenoldeb:

| | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 |
|---|---|---|---|
| Blwyddyn 1 > 6 | 90% | 91.1% | 91.8% |
| Absenoldeb wedi'i Awdurdodi | 7.2% | 6.8% | 6.4% |
| Absenoldeb Anadwurdodedig | 2.8% | 2.1% | 1.8% |

Er bod pob ysgol wedi cael trafferth cyrraedd eu lefelau presenoldeb cyn-pandemig, rydym wedi dewis cadw ein targed heriol cyn-bandemig o 95%. Mae'r cynnydd a wnaed dros y tair blynedd diwethaf yn adlewyrchu'r cydweithrediad effeithiol rhwng staff yr ysgol, disgyblion, rhieni ac swyddogion lles, ac rydym yn benderfynol i adeiladu ar hyn yn y blynyddoedd i ddod.



# STRWYTHUR DOSBARTHIADAU

Mae tua 400 o blant wedi eu cofrestru yn Ysgol Cybi ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r ysgol wedi cael ei datblygu gyda lle i hyd at 617 o blant, a gellir ei haddasu'n ysgol 'mynediad dwy flynedd a hanner', gan dderbyn hyd at 76 o ddisgyblion ar gyfer bob grŵp blwyddyn.

## MEITHRIN A DERBYN

Miss Elena Roberts yw'r athrawes arweiniol ar gyfer yr adran Meithrin a Derbyn. Mae'r nifer o ddosbarthiadau yn dibynnu ar y niferoedd yn y Meithrin o un flwyddyn i'r llall. Mae'r grŵp oed Meithrin yn mynychu ysgol ar sail rhan amser a caiff y sesiynau eu hollti rhwng sesiynau bore a phrynhawn. Mae'r plant yn y dosbarthiadau Derbyn yn annhebygol o aros gyda'i gilydd drwy gydol eu cyfnod yn yr ysgol. Ar ddiwedd bob blwyddyn ysgol, mae staff dysgu yn myfyrio ar lwyddiannau a heriau ac yn aml yn teimlo y byddai'n fuddiol gwneud mân newid i grwpiau dosbarth ar gyfer y flwyddyn ganlynol. Mae'r adran hon wedi ei lleoli yn yr adeilad brics coch gwreiddiol, a cheir mynediad o Ffordd South Stack.

## BLWYDDYN 1&2

Mrs Debi Desmond-Jones yw'r athrawes arweiniol ar gyfer Blwyddyn 1 a 2 ble mae pedwar o ddosbarthiadau cymysg Blwyddyn 1/2 ar hyn o bryd. Mae ystafelloedd dosbarth yr adran hon wedi eu lleoli ar lawr gwaelod yr adeilad newydd.

## BLWYDDYN 3&4

Mrs Jessica Witrylak-Griffiths yw'r athrawes arweiniol ar gyfer Blwyddyn 3 a 4. Eleni, mae'r plant wedi eu trefnu yn dri o ddosbarthiadau Blwyddyn 3/4 cymysg.

## BLWYDDYN 5&6

Mrs Claire Doutch yw'r athrawes arweiniol ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6. Ar hyn o bryd mae tri o ddosbarthiadau Blwyddyn 5 a dau ddosbarth Blwyddyn 6. Mae'r adran hon wedi'i lleoli i fyny'r grisiau yn yr adeilad newydd.

## ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL (ADY)

Rydym yn ymfalchïo yn ein gallu i ymateb yn hynod effeithiol i anghenion dysgu ychwanegol (ADY) disgyblion. Rydym yn aml yn gweithio'n agos gydag amrywiaeth o asiantaethau i gynnig darpariaeth bwrpasol i ddysgwyr unigol ac/neu grwpiau. Mae ein hysgol yn cynnwys ystafelloedd dosbarth ac ardaloedd ychwanegol i hwyluso'n gwaith yn cefnogi unigolion neu grwpiau bach mewn meysydd tebyg i sgiliau sylfaenol, sgiliau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol neu ymyrraethau mwy arbenigol o bryd i'w gilydd. Fel rhan o'n darpariaeth ysgol mae dau o ddosbarthiadau 'Nurture' sy'n dilyn egwyddorion 'Rhwydwaith Nurture Cenedlaethol' un ar gyfer plant Cam Sylfaen a'r ail i ddisgyblion Blwyddyn 3 - 6. Sefydlwyd y dosbarthiadau hyn yn wreiddiol er mwyn canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau ymddygiadol, emosiynol a cymdeithasol, ond er byn hyn, maent yn ymestyn eu darpariaethau i gynnwys agweddau o iaith, cyfathrebu a rhyngweithio.

Os ydyn ni'n teimlo y ballasai darpariaeth ychwanegol fod o fudd i'ch plentyn, byddwch yn derbyn gwahoddiad i gyfarfod gyda'n Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol Mrs Lynne Hardwidge Jones. Mae Anghenion Dysgu Ychwanegol yn derm eang, a gellir cefnogi nifer o blant gydag ADY yn y dosbarth, neu drwy eu tynnu o ddosbarthiadau am gyfnodau byr er mwyn gweithio tuag at dargedau penodol.

# CYFARFOD Y TIM

Mae gennym dîm o aelodau staff profiadol sydd â rolau a chyfrifoldebau penodol. Os ydych angen siarad ag aelod o staff, bydd ein staff clerigol yn y dderbynfa yn gallu eich cynorthwyo neu eich cyfeirio at y sawl sydd fwyaf tebygol o fedru eich helpu. Dyma drosolwg bras.

## UWCH REOLWYR

Y Pennaeth sydd â'r cyfrifoldeb pennaf am yr ysgol, a caiff ei gefnogi gan Ddirprwy Bennaeth. Fel Pennaeth, mae Mr Roberts yn gyfrifol am rediad dydd i ddydd yr ysgol, gan ddarparu'r weledigaeth strategol, ac arwain ar y rhan fwyaf o faterion yn ymwneud â chyllid a rheoli safle. Mrs Grieves yw ein Dirprwy Bennaeth, ac mae'n arwain ar yr holl faterion yn ymwneud â lles staff a disgyblion. Mrs Hardwidge Jones yw'r aelod diwethaf o'n Uwch Dîm Rheoli, ac mae'n gyfrifol am ddarpariaeth ADY yr ysgol.

## ATHRAWON ARWEINIOL

Fel un o ysgolion cynradd mwyaf y rhanbarth, rydym yn cydnabod mai un o'n heriau pennaf yw cynnal yr ymdeimlad o deulu a gysylltir yn aml gydag addysg gynradd. Er mwyn sicrhau bod plant yn dod yn gyfarwydd ag aelodau allweddol o staff a'n bod yn dod i 'nabod anghenion a diddordebau pob plentyn, rydym wedi rhannu ein ysgol yn bedair adran. Mae gan bob adran athro/athrawes arweiniol sy'n cynorthwyo i gydlynu gwaith y staff yn eu tîm.

## ATHRAWON

Mae'r rhan fwyaf o'n hathrawon yn gyfrifol am addysgu grŵp oedran penodol yn eu hadran fel y gwelir yn y tabl dros y dudalen. Yn ogystal â hyn, mae gennym ddau o Gynorthwywyr Dysgu Lefel 4 all fod yn dysgu eich plentyn am sesiynau penodol mewn unrhyw wythnos arferol.

## Y TÎM ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Yn gweithio gyda'n Cydlynydd ADY, mae gennym dîm o gynorthwywyr gyda cyfrifoldebau amrywiol. Er enghraifft, mae rhai yn gyfrifol am ddarparu ar gyfer anghenion iaith a lleferydd, meddygol neu emosiynol plant. Mae eraill wedi eu lleoli mewn ystafelloedd dosbarth yn sicrhau bod plant ag ADY yn cael mynediad at wersi prif lif gyda chefnogaeth.

## CYNORTHWYWR CYFNOD SYLFAEN

Mae gan bob un o'n dosbarthiadau Cam Dysgu Sylfaen o leiaf un cynorthwyydd er mwyn cefnogi'r athro/athrawes i ddarparu'r Cam Dysgu Sylfaen. Maent yn helpu'r athro/athrawes a'r



plant gyda phob agwedd o fywyd a gwaith yn y dosbarth ac hefyd yn treulio amser gyda'r plant pan fyddant yn chwarae a cymdeithasu yn ystod cyfnodau egwyl.

## STAFF ATEGOL

Yn ogystal â'r staff dysgu, rydym yn cyflogi tîm o staff ategol i helpu ein disgyblion a'n rhieni mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae dwy o Swyddogion Clerigol yn gweithio yn ein Derbynfa yn cynorthwyo disgyblion, rhieni ac aelodau o staff gyda rhediad dyddiol yr ysgol. Os na allant helpu gyda mater, byddant yn bendant yn medru eich cyfeirio at rywun arall fydd yn gallu helpu. Mae ein cogyddion, a gyflogir gan gontractwr arlwyo, yn paratoi prydau bwyd ffres arbennig bob dydd, ac mae ein glanhawyr yn sicrhau bod yr ysgol yn amgylchedd glân a chroesawgar i ddisgyblion weithio a chwarae.

| Enw | Rôl | Blwyddyn | Dosbarth |
|---|---|---|---|
| Owain L Roberts | Pennaeth | Cyfrifoldeb cyffredinol am bob agwedd o fywyd yr ysgol | |
| Rhian Grieves | Dirprwy Bennaeth | Arweinydd ar les disgyblion, amddiffyn plant a phresenoldeb | |
| Lynne Hardwidge Jones | Cydlynydd ADY | Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol | |
| Claire Doutch | Athrawes Arweiniol Adran Blwyddyn 5/6 | 6 | 25 |
| Jessica Witrylak-Griffiths 0.8 | Athrawes Arweiniol Adran Blwyddyn 3/4 | 3/4 | 16 |
| Debi Desmond-Jones | Athrawes Arweiniol Adran Blwyddyn 1/2 | 1/2 | 10 |
| Elena Roberts | Athrawes Arweiniol Adran M/D | D | 5 |
| Nia Jones | Athrawes | D | 6 |
| Dani Jones | CD L4 | M | 3 |
| Lynne Trowell | Athrawes | 1/2 | 8 |
| Elaine Wildman | Athrawes | 1/2 | 11 |
| Amanda Earnshaw | Athrawes | 1/2 | 12 |
| Jodie Tanner 0.6 / Elysia Kidd 0.6 | Athrawes | 3/4 | 13 |
| Llio Griffiths | Athrawes | 3/4 | 14 |
| Llio Thomas-Jones 0.8 | Athrawes | 5 | 19 |
| Nerys Williams | Athrawes | 5 | 20 |
| Nia Morgan | Athrawes | 5 | 21 |
| Anwen Phillips (CD L4) | Cynorthwyydd Anogaeth Arbenigol | Anogaeth | 9+23 |
| Holly Edwards | Teacher and Pedagogy Lead | 6 | 24 |
| Sarah Williams (CD L4) | Cyfnodau CPA | | |
| Rhian Bruce | Cyfnodau CPA | | |
| Cynorthwywyr Cam Dysgu Sylfaen | Kelly Morris, Lilly Williams, Laura Walters, Caitlin Key, Karen Davies, Amanda Owen, Anna Hughes | | |
| Tîm ADY | Jan Hughes, Susan Roberts, Beverley Chadwick, Yvonne Owen, Lois Morris, Karen Owen, Erin Williams, Rachel McEachern, Laura Malone, Gemma Williams, Sophie McGinness, Heather Pritchard, Sian Mowbray, Kerrylee Owen, Anwen Pritchard, Zoe Williams, Kirsty Owen, Eve Williams | | |
| Cheryl Dickens | Swyddog Cefnogi Clerigol | | |
| Carol Kelsall | Swyddog Cefnogi Clerigol | | |
| Colin Bell | Cadeirydd y Llywodraethyr | | |






*"Dysga i blentyn y ffordd*
*orau i fyw;*
*a fydd e ddim yn troi*
*cefn arni pan fydd e'n hŷn.'*
*Diarhebion 22:6*

# YR EGLWYS YNG NGHYMRU

Fel ysgol Eglwys yng Nghymru, ein nod bob amser yw hyrwyddo gwerthoedd a moesau Cristnogol sy'n rhan bwysig o ethos yr ysgol. Mae gennym gysylltiadau agos ag Eglwys Sant Cybi, ac mae'r plant yn mwynhau ymweld a pherfformio mewn gwasanaethau yno. Mae aelodau'r glerigiaeth leol yn ymweld â'r ysgol yn aml ac yn arwain gwasanaethau ysgol wythnosol. Mae disgyblion yn mynychu gwasanaethau dyddiol unai yn y dosbarth neu fel adran neu ysgol gyfan yn y neuadd ysgol.

Mae darpariaeth Gwricwlaidd yr ysgol yn unol â gofynion Maes Dysgu a Phrofiad y Dyniaethau, sy'n cwmpasu crefydd, gwerthoedd a moeseg (CGM). Er na all rhieni dynnu eu plant o CGM, mae ganddynt yr hawl i'w tynnu o gyd-addoliad, drwy hysbysu'r Pennaeth yn ysgrifenedig. Ein nod yw creu ethos cynhwysol y gall plant o bob crefydd neu ddim crefydd ei werthfawrogi. Mae'r Eglwys yn rhan bwysig o'n hysgol, a thrwy fyfyrio ar y moesol a'r ysbrydol, gobeithiwn y bydd ein plant yn tyfu i fod yn bobl ifanc gytbwys, cyflawn a pharchus.

# ARFERION DYDDIOL

Er mwyn cynnal rhediad esmwyth ysgol mae'n bwysig rhoi arferion ar waith y mae plant, staff a rhieni yn eu deall.

## CYRRAEDD YN Y BORE

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yr ysgol drwy'r gatiau i mewn i iard chwarae Blwyddyn 3 - 6. Mae mynediad i fan hyn drwy lwybr i gerddwyr. Mae'r gatiau hyn yn agor am 8:50am a disgwylir i blant fod yn y dosbarth ac ar amser i'r cofrestru am 9:00am. Mae plant yn y Meithrin a'r Derbyn yn cael mynediad at y safle drwy dair giât a r Ffordd South Stack. Eto, caiff y rhain eu hagor am 8:50am a chymerir y cofrestrau am 9:00am. Mae'r rhai sydd wedi archebu sesiwn yn ein Clwb Gofal ymlaen llaw yn cyrraedd rhwng 8:00am a 8:15am ac yn mynd i'r Fynedfa Gymunedol a leolir ger neuadd yr ysgol. Agorir yr un drysau eto rhwng 8:25am a 8:35am ar gyfer ein clwb brecwast di-dâl.

## GADAEL AR DDIWEDD Y DYDD

Mae rhan fwyaf o blant yn gadael yr ysgol drwy iard Blwyddyn 3 - 6 ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Caiff plant Blwyddyn 1/2 eu tywys i'r buarth am 3pm a'u rhyddhau i ofal eu rhieni. Dilynir trefn debyg pum munud yn ddiweddarach gyda disgyblion Blwyddyn 3 - 6, er y gallent gerdded adref ar eu pennau eu hunain os yw hyn wedi cael ei gytuno ymlaen llaw – gall rhieni wneud cais am 'bas cerdded' i'w plant. Mae disgyblion Meithrin a Derbyn yn gadael y safle drwy'r llwybrau sy'n arwain at Ffordd South Stack. Mae'r gatiau hyn yn agor am 11am ar gyfer y disgyblion Meithrin sy'n mynychu'r sesiwn foreol a 3pm ar gyfer pawb arall.

## PARCIO I RIENI

Mae gan y maes parcio ar flaen yr ysgol leoedd wedi'u rhifo sydd wedi eu dyrannu ar gyfer athrawon yn unig. Gofynir i rieni ac ymwelwyr ddefnyddio'r maes parcio ar draws y ffordd o'r brif fynedfa y ceir mynediad ato drwy Millbank. Apeliwn ar yrwyr i osgoi parcio yn agos at groesfannau sebra neu ardaloedd cyfyngedig eraill. Efallai y bydd rhieni plant hŷn am wneud cais am 'bas cerdded' a gallent drefnu i gwrdd â'u plentyn ar bwynt a bennwyd ymlaen llaw er mwyn osgoi'r ardaloedd fwyaf prysur.

## AMSEROEDD CHWARAE

Mae gan bob disgybl un amser chwarae wedi'i amserlenu yn y bore yn ogystal ag amser cinio ble mae cyfle i'r plant hefyd fynd allan i chwarae. Mae unrhyw amseroedd chwarae prynhawn yn nwylo'r athrawon dosbarth ac yn aml yn ddibynol ar drefniadau'r diwrnod. Mae ein hamserlenni addysgu yn sicrhau 21.5 awr yr wythnos o ddarpariaeth i ddisgyblion Dysgu Sylfaen, gyda



hynny yn codi i 23.5 awr yr wythnos ar gyfer disgyblion Blwyddyn 3>6. Mae hyn yn cymryd canllawiau llywodraeth i ystyriaeth.

## FFORDD IACH O FYW

Yn ystod egwyl y bore, gall y disgyblion brynu ffrwyth o'r siopau yr ydym yn eu rhedeg yn yr ysgol, neu ddod â'u ffrwyth eu hunain fel byrbryd. Cost darn o ffrwyth yw 30c y diwrnod. Ni chaniateir byrbrydau nad ydynt yn iach fel bisgedi a chreision amser chwarae. Mae prydau ysgol maethlon am ddim ar gael yn ddyddiol. Fel arall, gallwch ddarparu pecyn bwyd i'ch plentyn - eto rydym yn annog opsiynau iachus yn hytrach na' danteithion melys. Rydym hefyd yn annog teithiau iach i'r ysgol ac mae gennym feysydd diogel i gadw beiciau a sgwteri ar ein buarth Blwyddyn 3 - 6.

# GWISG YSGOL

Heb os, mae gwisgo'r wisg ysgol yn help i'r disgyblion deimlo'n rhan o'n cymuned ysgol. Mae 'r wisg gyda'r bathodyn cywir arni ar gael o siopau lleol er nad yw'n orfodol i wisgo'r logo. Mae rhieni'n rhydd i ddewis cyflenwyr eraill fel archfarchnadoedd neu gyflewnyr ar-lein pe dymunant.

## BATHODYNNAU ENW

Mae'n hynod o bwysig sicrhau bod eiddo eich plentyn yn cael ei labelu. Gofynnwn yn garedig i chi bwytho bathodynnau enw ar ddillad os yn bosibl, neu fan lleiaf, defnyddiwch bin ffelt i helpu i ni adnabod eiddo eich plentyn.

## PRIF WISG YSGOL

Dewisom y lliw gwyrddlas fel prif liw'r ysgol i gyd-fynd gyda lliw'r adeilad ei hun. Gofynnir i ddisgyblion wisgo siwmper neu gardigan wyrddlas, gyda chrys polo gwyn oddi dano. Trowser du/llwyd (nid tracwisg) neu sgert ddu/lllwyd sy'n cwblhau'r wisg. Dylai sgertiau fod o hyd rhesymol. Mae ffrogiau haf yn aml yn boblogaidd mewn tywydd cynnes - byddwn yn awgrymu bod y patrwm gingham glas yn mynd yn dda gyda'r lliw gwyrddlas. Sicrhewch fod eich plant yn gwisgo esgidiau du synhwyrol, gan osgoi sodlau. Mae'n synhwyrol gyrru'r plant i'r ysgol gyda chôt bob amser oni bai am ddiwrnodau hynod o boeth rhag i'r tywydd droi - byddwn yn aml yn gyrru'r plant allan i chwarae am awyr iach, hyd yn oed os yw hi'n pigo bwrw glaw, ond heb got gall eich plentyn fethu allan. Mae llochesi darllen Ysgol Cybi hefyd ar gael o siopau lleol. Argymhellwn yn gryf bod eich plentyn yn cario un o'r rhain - maent yn helpu i gadw llyfrau darllen, gwaith cartref ac unrhyw lythyrau mewn cyflwr da.

## CIT ADDYSG GORFFOROL

Rydym wedi cyflwyno cit Addysg Gorfforol am resymau ymarferol iawn. Mae gwisgo dillad rhad a phlaen yn golygu gwell gwerth am arian i rieni, a hefyd yn dileu unrhyw gystadleuaeth rhwng y plant o ran pwy sydd â'r crys pêl-droed mwyaf smart neu'r cit mwyaf ffasiynol. Ar gyfer Addysg Gorfforol, dylai plant wisgo crys t gwyn a siorts du plaen. Mae'n bosib prynu'r rhain gyda logo'r ysgol arnynt os ydych chi'n dymuno. Gall ddisgyblion iau adael eu bagiau AG yn yr ysgol yn ystod yr wythnos, gan fynd a nhw adref yn ystod gwyliau ysgol i'w golchi. Bydd rhai gwersi Addysg Gorfforol yn y neuadd a gofyn i'r plant fod yn droednoeth, i amddiffyn y llawr ac i helpu gydag amcanion gwersi. Gall unrhyw un sydd â ferwca wisgo hosan arbenigol fel y math caiff ei wisgo i fynd i nofio.

## GEMWAITH AC ATEGOLION

Rydym yn gofyn yn garedig nad yw disgyblion yn gwisgo gemwaith yn yr ysgol. Gall yr eitemau hyn fod yn werthfawr a gallent hefyd achosi risgiau iechyd a diogelwch (er enghraifft, clustdlysau cylch mawr). Os oes rhaid gwisgo clustdlysau, gofynnwn iddynt wisgo 'studs' yn unig. O ddewis eu gwisgo, bydd eitemau tebyg i rhain yn cael eu tynnu oddi wrth y disgyblion tan ddiwedd y diwrnod ysgol, a bydd y plant yn cael cyngor i beidio â'u gwisgo i'r ysgol eto.



## BETH I DDOD I'R YSGOL

AR ddiwrnod arferol, bydd plant yn dod i'r ysgol gyda chôt, lloches darllen, cit Addysg Gorfforol (ar y diwrnod priodol), potel ddŵr a rhai yn dod a phecyn bwyd. Nid oes angen iddynt ddod â chas pensiliau, offer ysgrifennu (rydym yn darparu'r holl offer sydd ei angen yn yr ysgol), nac unrhyw deganau na gemau. Rydym yn darparu peli pêl-droed ar gyfer amser chwarae - ni chaniateir i ddisgyblion ddod â rhai eu hunain.

# LLES

## YMDDYGIAD

Mae'r ysgol yn defnyddio sawl strategaeth i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol, ac i annog disgyblion i ailfeddwl ar ol gwneud dewis anghywir. Yn fyr, rydym yn ymdrechu'n galed i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn barhaus a'i atgyfnerthu drwy wersi a gwasanaethau sy'n pwysleisio pwysigrwydd gwerthoedd Cristnogol. Bydd staff ysgol yn defnyddio gwobrwyon penodol i ddathlu llwyddiannau e.e. pwyntiau dojo neu tai. Mae polisi ymddygiad yr ysgol yn amlinellu'r sancsiynau a'r gefnogaeth ddefnyddir gyda disgyblion sydd yn cael trafferth cadw at derfynnau ymddygiad rhesymol. Ein prif nod, drwy gydweithio'n agos gyda rhieni ac asiantaethau arbenigol, yw blaenoriaethu lles pob un tra'n sicrhau'r amodau gorau ar gyfer cynhwysiad disgyblion mewn dysgu prif lif.

## SYSTEM DAI

Yn ogystal â bod yn aelodau o ddosbarthiadau caiff y disgyblion eu rhannu hefyd yn bedwar grwp (tai) wedi'i henwi ar ol lleoliadau adnabyddus lleol. Gall disgyblion gasglu pwyntiau tai am lwyddiannau amrywiol ac mae cyfleoedd i gydnabod a dathlu pwyntiau tai ar ddiwedd tymor ac/neu flwyddyn. Mae disgyblion hefyd yn mwynhau cystadlu mewn cystadlaethau tai blynyddol, megis mabolgampau ac Eisteddfod Ysgol.

## PRESENOLDEB AC ABSENOLDEB

Mae presenoldeb yn ofyn cyfreithiol ar gyfer disgyblion oed ysgol statudol ac felly disgwylir i blant fod yn bresennol yn yr ysgol yn ddyddiol. Targed presenoldeb yr ysgol yw 95%, sydd gyfateb â dim mwy na 8 diwrnod o absenoldeb mewn blwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod salwch a damweiniau yn digwydd, ac felly ni ellir osgoi amser i ffwrdd. Mae'n hanfodol bod rhieni yn hysbysu'r ysgol ar fore cyntaf unrhyw absenoldeb. Gellir gwneud hynny drwy yrru neges destun drwy'r ap School Gateway. Mae taflen wybodaeth ddefnyddiol gan yr Adran Iechyd (drosodd) yn nodi'r cyfnod disgwyliedig o absenoldeb ar gyfer gwahanol anhwylderau. Gall rhieni hefyd wneud cais am un gwyliau bob blwyddyn am hyd at 10 diwrnod ysgol dan amgylchiadau eithriadol. Er mwyn derbyn cymeradwyaeth cais gwyliau, rhaid i hanes presenoldeb plentyn gwrdd meini prawf caeth, fel arall byddai'n debygol o gael ei gofnodi fel bod yn anawdurdodedig. Gall gormod o absenoldebau anawdurdodedig arwain at hysbysiad cosb gan yr Awdurdod.

## DIOGELWCH SAFLE

Diogelir perimedr ein safle yn ystod y dydd gan ffensys a gatiau mawr sy'n cloi yn electronig. Mae'n rhaid i unrhyw ymwelwyr adrodd i'r dderbynfa yn y brif fynedfa. Mae gan ein holl staff wiriadau DBS cyfredol, ac rydym yn cynnal asesiadau risg rheolaidd o dir yr ysgol.

## DIOGELU

Ein dyletswydd bwysicaf yn yr ysgol yw sicrhau diogelwch pob plentyn. Mrs Grieves (Dirprwy), yw ein swyddog amddiffyn plant dynodedig, wedi'i dirprwyo gan Mr Roberts (Pennaeth) ynghyd ag aelodau eraill y Tîm Rheoli – Mrs Hardwidge, Mrs Doutch a Mrs Witrylak-Griffiths. Rydym yn dilyn 'Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan', ac yn ymgysylltu ag asiantaethau allanol lle bo'n briodol. Pan fyddwn yn amau esgeulustod neu gamdriniaeth, byddwn yn gwneud cyfeiriad Amddiffyn Plant ar unwaith heb ymgynghoriad. Pan fyddwn yn teimlo bod angen mwy o gymorth ar deulu i gwrdd ag anghenion eu plant, byddwn yn eu gwahodd i'r ysgol i drafod yr opsiynau sydd ar gael. Mae arwyddion sy'n peri pryder yn amrywio o'r rhai amlwg, megis cleisiau a marciau corfforol, i'r rhai llai amlwg megis newid tymer; absenoldebau aml; llau pen aml; anallu i ddarparu cinio addas; cyfeiriadau at gyfryngau i oedolion (deunydd amhriodol); dirywiad ymddygiadol neu mewn gwaith.

## ADDYSG CYDBERTHYNAS A RHYWIOLDEB

Fel rhan o'n rhaglen Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb , rydym yn addysgu plant am ryw a pherthnasau iach. Mae hyn yn cynnwys dysgu enwau rhannau o'r corff yn y Cam Dysgu Sylfaen a dysgu am lasoed, newidiadau i'r corff ac atgenhedlu yn nosbarthiadau Blwyddyn 3 - 6.

## DAMWEINIAU A MEDDYGINIAETH YN YR YSGOL

Er ein hymdrechion gorau i gynnal amgylchedd trefnus, o dro i dro ni ellir osgoi damweiniau. Os yw eich plentyn wedi derbyn cymorth cyntaf yn ystod y dydd, byddant yn derbyn slip i fynd adref gyda nhw. Bydd unrhyw daro pen yn arwain at alwad ffon ychwanegol gan ein staff clerigol. Nid oes gan staff yr hawl i roi meddyginiaeth oni bai bod cynllun gofal penodol ar waith – gan amlaf mae'n bosib gweinyddu digon o ddosiau y tu allan i oriau ysgol. Os nad yw'n bosib, gall rhieni fynychu'r ysgol yn ystod yr awr ginio i roi'r feddyginiaeth i'w plentyn.

## PLANT MEWN GOFAL

Ein person dynodedig ar gyfer Plant Mewn Gofal yw Mrs Rhian Grieves, y Dirprwy Bennaeth. Caiff anghenion pob plentyn eu hadolygu'n ffurfiol yn rheolaidd yn cynnwys gweithio'n agos ochr yn ochr ag unrhyw asiantaethau cefnogol.

## TOILEDU

Mae plant wedi eu hyfforddi i ddefnyddio'r tolied cyn dechrau'r Meithrin gan amlaf. Petai plant yn parhau mewn clytiau, bydd yn rhaid i rieni fynychu'r ysgol os oes angen eu newid. Rhaid derbyn ffurflen ganiatâd wedi'i arwyddo gan riant cyn i gymorthyddion fedru helpu petai damwain yn digwydd. Mae cynlluniau gofal yn cynnwys cefnogi ac hyfforddi disgyblion i ddefnyddio'r toiled yn annibynnol o bryd i'w gilydd. Caiff ein holl doiledau eu glanhau yn ddyddiol. Ceir mynediad at doiledau yn syth o'r dosbarth Methrin a'r Derbyn, gyda sawl cyfleuster priodol ar gael i ddisgyblion pob ystod oedran arall.

## YFED DŴR

Mae ffynhonnau ar gael ac anogir y disgyblion i ddod a poteli dŵr llawn i'r ysgol. Cânt fynediad at ddŵr pan fo angen yn ystod y diwrnod ysgol. Ni chaniateir 'squash' yn ystod amseroedd chwarae ond gall rhieni ei gynnwys fel rhan o becyn bwyd dros ginio.

# CYFATHREBU GYDA'R YSGOL


Mae sawl ffordd y gallwn rannu negeseuon gyda rhieni, yn ogystal â nifer o opsiynau i chi gysylltu â ni. Credwn fod cyfathrebu da yn arwain at gydweithrediad da.

Y ffordd fwyaf amlwg o gysylltu yw siarad ag aelod o staff, ac efallai y byddwch yn gallu cael gair sydyn wrth y drws ar y buarth ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Ar gyfer sgwrs fwy preifat, gan fod prif ffocws yr athrawon ar y plant yn ystod oriau ysgol, bydd rhaid gwneud apwyntiad drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Gallwch yrru negeseuon byrrach atom drwy neges destun yn defnyddio'r ap School Gateway, drwy e-bostio'r ysgol, yn uniongyrchol i'r athro/awes ddosbarth drwy Class Dojo neu drwy godi'r ffôn. O'n safbwynt ni, rydym yn rhannu newyddion a gwybodaeth drwy ein Facebook ysgol a dros e-bost yn rheolaidd. Rydym hefyd yn defnyddio School Gateway i yrru negeseuon testun pan fo angen, ac mae'n angenrheidiol yn achlysurol o hyd i ni yrru llythyrau adref gyda'r disgyblion. Rydym yn ymfalchïo yn ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol, ond gyda hynny daw elfen o ymddiriedolaeth – gofynnwn yn garedig i chi ddangos parch at yr ysgol ac at ein staff bob amser, gan gynnwys ar-lein – os oes gennych unrhyw boenau neu bryderon, dewch i drafod hynny gyda ni os gwelwch yn dda.




# CWYNION

Os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag addysg eich plentyn, gwnewch apwyntiad i weld athro/awes eich plentyn drwy gysylltu â swyddfa'r ysgol. Gellir delio â'r rhan fwyaf o broblemau yn anffurfiol gan yr athro/athrawes dan sylw. Os teimlwch nad yw eich problem wedi cael ei datrys, logiwch eich pryder yn nerbynfa'r ysgol. Bydd ein staff cefnogol yn cymryd ychydig o fanylion bras gennych er mwyn gweithio allan pa aelod o staff neu aelod o'r tîm rheoli all eich helpu. Bydd hyn yn dibynnu ar natur eich pryder, a gall fod yn un o'r athrawon arweiniol, cydlynydd ADY, y pennaeth neu ei ddirprwy. Yn y sefyllfa annhebygol ohonoch yn parhau i fod heb eich bodloni, gallwch gyflwyno cwyn ysgrifenedig i'r Pennaeth, ac mae'n rhaid iddo ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith. Os yw'r holl lwybrau hyn wedi cael eu dilyn ac rydych yn dal yn anhapus, gallwch ysgrifennu at Gadeirydd y Llywodraethwyr, drwy'r ysgol, a fydd yn archwilio a yw'r Pennaeth wedi delio â'r mater yn deg ac yn gywir.




# CYFARFOD CORFF LLYWODRAETHU I RIENI

Caniateir i rieni ofyn am hyd at dri chyfarfod mewn unrhyw flwyddyn. Mae hwn yn gyfle i rieni ofyn cwestiynau am yr Adroddiad Blynyddol neu unrhyw faterion eraill yn ymwneud â'r ysgol ac am sut y maent wedi ymgymryd â'u dyletswyddau o ran rhedeg yr ysgol. Gellir gofyn am gyfarfodydd ar unrhyw amser yn ystod y flwyddyn ysgol os yw o leiaf 30 neu 10% o rieni yn cytuno i'r cais. Cysylltwch â'r Pennaeth neu Gadeirydd y Corff Llywodraethu am fanylion pellach.





# ARIAN YN YR YSGOL

Mae'r rhan fwyaf o agweddau o fywyd ysgol plentyn yn Ysgol Cybi yn ddi-dâl. Fodd bynnag, mae rhai gwasanaethau neu weithgareddau lle mae taliad yn ofynnol, ac eraill lle mae cyfaniad yn cael ei werthfawrogi.

## TALIADAU AR-LEIN

Y ffordd hawsaf o bell ffordd i wneud taliad i Ysgol Cybi yw drwy'r ap School Gateway. Y rhan anoddaf yw cofrestru yn y lle cyntaf – gall ein staff gweinyddol helpu os oes angen. Unwaith yr ydych wedi cychwyn arni, mae'n hawdd talu am ginio ysgol, tripiau ysgol a gweithgareddau o'r fath.

## TALIADAU ARIAN PAROD

Rydym yn agos at fod yn ysgol ddi-arian parod erbyn hyn. Fodd bynnag, os ydych chi'n cael unrhyw drafferthion, yn cynnwys gyda'r system talu ar-lein, cysylltwch gyda'r staff gweinyddol fydd yn hapus i gynorthwyo.

## ARIAN FFRWYTHAU

Rydym yn rhedeg siop ffrwythau sy'n gwneud elw bach y gall yr athrawon ei wario ar adnoddau i'w dosbarth. Cost darn o ffrwyth yw 30c y diwrnod (arian parod mewn amlen gydag enw a dosbarth y plentyn os gwelwch yn dda).

## POLISI CODI TÂL

Ers Medi 2021, mae pob polisi ysgol wedi ei gyhoeddi ar ein gwefan wrth iddynt gael eu mabwysiadu gan y Corff Llywdraethol; ac mae ein 'Polisi Codi Tâl' llawn i'w weld yno. Mae achlysuron pan fyddwn yn gofyn yn garedig am gyfraniadau gwirfoddol tuag at ymweliadau, neu ddigwyddiadau. Tra bod ymdrechion codi arian yn gymorth enfawr, mae rhai profiadau yn ystod y flwyddyn addysgol fyddai'n amhosibl i'w darparu heb gyfraniadau rhieni.

## CODI ARIAN

Fel rhan o'n dyletswydd i addysgu plant i fod yn ddinasyddion cyfrifol, gofalgar, mae dosbarthiadau a'r cyngor ysgol yn trefnu gweithgareddau codi arian bob blwyddyn, gan gefnogi elusennau a'r ysgol ei hun. Mewn blwyddyn arferol, rydym yn trefnu gweithgareddau i gefnogi – Plant Mewn Angen, Diwrnod Trwynau Cochion, Sul Y Cofio, elusen ddewisol y Cyngor Ysgol. Yn ogystal â hyn, byddwn yn aml yn trefnu digwyddiadau ychwanegol tebyg i'r canlynol i godi arian i'r ysgol – Sioe Nadolig a disgo, digwyddiadau wedi'u noddi, ffair yr haf, loteri'r ysgol.

# CYNLLUNIO EICH DIWRNOD CYNTAF

Mae'r map yma o'r safle yn dangos y llwybrau i ac o'r ysgol.

Ceir mynediad i'r Adran Feithrin a Derbyn i'n plant sydd o dan 5 oed, ac i'r darparwr cyn-ysgol a'r gofal cofleidiol drwy'r tair giât ar South Stack Road. Defnyddir cloeau electronig i sicrhau bod y gatiau ar agor rhwng 8:50am a 9:00am, ac ar amseroedd casglu yn unig.

**Meithrin & Derbyn**

Dosbarth1&2 Dosbarth 3&4 Dosbarth 5&6

**Blwyddyn 1 - 6**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd yr ysgol drwy giât sy'n agor i fuarth Blwyddyn 3 - 6 o lwybr cerdded. Caiff y giatiau eu hagor rhwng 8:50am a 9:00am, ac o 2:50pm ymlaen ar gyfer casglu. Gall rhieni ddisgwyl yn yr ardal sydd wedi ei marcio yn felyn ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Bydd plant hŷn sydd â chaniatâd i gerdded adref yn cael tocyn cerdded os yw'r ffurflen gywir wedi cael ei chwblhau.



**Clwb Gofal/Brecwast**

Mae plant sy'n mynychu ein clwb gofal neu glwb brecwast yn mynd i mewn drwy'r Mynediad Cymunedol yn y gornel a ddangosir gan y saeth. Mae'r drws ar agor ar gyfer y clwb gofal rhwng 8:00am a 8:15am. Mae'r drws ar agor ar gyfer y clwb brecwast rhwng 8:25am a 8:35am.

Noder os gwelwch yn dda fod gan y maes parcio o flaen y mynediad i ymwelwyr rifau sydd wedi eu clustnodi ar gyfer defnydd athrawon yn unig.

# Dyddiadau Allweddol 2025-26

| DYDDIADAU TYMOR 2025-26 | Cychwyn | Gorffen |
|---|---|---|
| **Tymor yr Hydref** | 01.09.25 | 19.12.25 |
| **Tymor y Gwanwyn** | 06.01.26 | 27.03.26 |
| **Tymor yr Haf** | 13.04.26 | 20.07.26 |
| | | |
| **GWYLIAU 2025-26** | | |
| **Hanner Tymor** | 27 Hydref - 31 Hydref | |
| **Gwyliau'r Nadolig** | 22 Rhagfyr - 02 Ionawr | |
| **Hanner Tymor** | 16-20 Chwefror | |
| **Gwyliau'r Pasg** | 30 Mawrth - 10 Ebrill | |
| **Calan Mai** | 4 Mai | |
| **Hanner Tymor** | 25 Mai - 29 Mai | |
| **Gwyliau'r Haf** | 17 Gorffennaf - 31 Awst | |

Fe all rhai o'r dyddiadau hyn newid yn ystod y flwyddyn ysgol. Bydd Ysgol Cybi yn eich diweddaru gydag unrhyw newidiadau fydd yn berthnasol i'ch plentyn/plant.

Gwybodaeth ychwanegol ar gael mewn atodiadau ar wahân:

*Ffurflen Casglu Data SIMS (ar gyfer disgyblion newydd)
*Ffurflen Prydau Ysgol am Ddim (os yn gymwys)
*Dyddiadau tymhorau ysgol a gwyliau ysgol

YSGOL CYBI

Ffordd Garreglwyd
Caergybi, LL65 1NS
01407 883150

Pennaeth:
660306_pennaeth.cybi@Hwbcymru.net
Gweinyddol:
6603036_gweinyddol.cybi@hwbcymru.net

www.ysgolcybi.cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

## Iechyd Cyhoeddus Cymru
## Tîm Diogelu Iechyd

### Cyfnod Gwahardd ar gyfer Heintiau Cyffredin (Gorffennaf 2024)
### Gan gynnwys A-Y o heintiau cyffredin a'r Camau Nesaf

Mae'r tabl isod yn ganllaw ynghylch a ddylai unigolyn sydd â haint fynychu lleoliad e.e., ysgol neu weithle. Mae hyn yn seiliedig ar lefel/cyfnod heintusrwydd yn hytrach nag a yw'r unigolyn yn ddigon da i fod yn bresennol. Os nad yw'n siŵr, dylai unigolion aros gartref a gofyn am gyngor gan Galw Iechyd Cymru 0845 46 47 (GIG 111 lle mae ar gael), eu fferyllfa neu eu meddyg teulu). Os bydd lleoliad yn gofyn am gyngor ar heintiau a hyd yr amser y dylid cadw unigolyn i ffwrdd o'r lleoliad (cyfnod gwahardd) yna gofynnir i'r lleoliad:

1. Gyfeirio at y tabl gwybodaeth isod.
2. Gofyn am gyngor, os oes angen, gan weithwyr iechyd proffesiynol perthnasol fel meddyg teulu, Fferyllfa, Ymwelydd Iechyd, Nyrs Ysgol, Bydwraig, etc.
3. Yn achos salwch/amlygiad staff, cysylltu â'u Tîm Iechyd Galwedigaethol eu hunain.
4. Cysylltu â **Thîm Ymateb Aciwt Cymru Gyfan (AWARe) ar 0300 003 0032 neu drwy e-bost aware@wales.nhs.uk os ydych yn cael cyfarwyddyd i wneud hynny isod.**
5. Mae cau lleoliad er mwyn rheoli haint yn brin iawn; nid oes angen i chi gau'ch lleoliad oni bai eich bod yn cael eich cynghori i wneud hynny ar ôl siarad â'r Tîm Diogelu Iechyd.

Pan fydd achosion lleol/cenedlaethol o salwch, bydd lleoliadau fel arfer yn cael eu hysbysu a'u cynghori am unrhyw gamau y mae'n ofynnol iddynt eu cymryd gan Dîm Diogelu Iechyd/Ymateb Aciwt Cymru Gyfan. Gofynnir i leoliadau gadw cofrestr o unigolion sy'n sâl a hefyd mae ganddynt gofrestr o unigolion a allai gael eu hystyried yn agored i haint. Os oes dau neu fwy o achosion o haint; neu fwy na'r nifer arferol o bobl â haint cyffredin, yna dylai'r lleoliad ofyn am gyngor gan y Tîm Diogelu Iechyd (AWARe).

| **Salwch a heintiau** | **Hyd yr amser y mae unigolyn i'w gadw i ffwrdd o'r lleoliad (Cyfnod Gwahardd)** | **A oes angen i leoliadau plentyndod gan gynnwys meithrinfeydd/ ysgolion hysbysu Iechyd Cyhoeddus Cymru? (AWARe)** | **Cyngor a Chamau Nesaf** | **Sylwadau** |
|---|---|---|---|---|
| **Croen a brechau** | | | | |
| Dylid ystyried brechau anesboniadwy yn heintus hyd nes y ceir cyngor iechyd gan glinigydd.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Brechau croen babanod a phlant | | | | |
| **Tarwden y traed** | **Dim** | **Nac oes** | • Peidiwch â chaniatáu i bobl sydd â'r haint rannu sanau, esgidiau, tywelion neu fatiau bath ag eraill.<br>• Sicrhewch fod yr unigolyn yn gwisgo hosan rwber wy nofio.<br>• Dylai rhieni/gwarcheidwaid ofyn am gyngor gan eu fferyllwyr lleol.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Tarwden y traed | Nid yw tarwden y traed yn gyflwr difrifol, ond argymhellir triniaeth. |
| **Brech yr ieir** | **OES**, 5 diwrnod o ddechrau'r frech **A** hyd nes bod yr holl fesiglau (pothelli) wedi ffurfio crawen (wedi sychu). | **Oes, OND DIM OND** os yw brech yr ieir a/neu'r ffliw yn cylchredeg ar yr un pryd ac yn yr un lleoliad, (e.e., Ystafell Ddosbarth, Meithrinfa) fel Y dwymyn goch. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell. Mae hyn yn cynnwys teganau, eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>• Anfonwch unrhyw unigolyn sydd â brech yr ieir adref. Cadwch yr unigolyn draw o'r lleoliad nes bod yr holl bothelli wedi crystiog drosodd.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Brech yr ieir | Heintus am 24 awr cyn dechrau'r frech. *GWELER: Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod).*<br>I ddechrau, bydd ICC yn cynghori ar reoli'r digwyddiad **DIM OND os** yw brech yr ieir a/neu'r ffliw yn cylchredeg ar yr un pryd ac yn yr un lleoliad, (e.e., o fewn yr un ystafell ddosbarth, ac o fewn yr un feithrinfa) fel y dwymyn goch. |
| **Dolur annwyd (Herpes Simplex)** | **Dim** | **Nac oes** | • Cysylltwch â'ch fferyllydd lleol os nad yw'n gwella.<br>• Ceisiwch osgoi cusanu a chyswllt â'r briwiau.<br>• Dylid osgoi defnyddio cwpanau/offer a fyddai'n cael eu rhannu yn y lleoliad.<br>Ceisiwch osgoi rhannu tywelion, gwlanen, brwsys dannedd a raseli.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Dolur annwyd | Yn gyffredinol, mae symptomau dolur annwyd yn ysgafn ac yn hunan-gyfyngol. |
| **Y frech Almaenig (Rwbela)*** | **OES**, gwaharddiad am bum niwrnod o ddechrau'r frech. (Mae diwrnod cyntaf y frech yn cael ei gyfrif fel diwrnod 0) | **Oes,** oedd plentyn wedi mynychu o fewn 7 diwrnod cyn ac o fewn 7 diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos. Fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd i AWARe, (Tîm Iechyd y Cyhoedd). | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell. Mae hyn yn cynnwys teganau, eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft rhaid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Rwbela | Gellir ei atal trwy frechu ac mae'n cael ei gynnwys yn yr amserlen imiwneiddio arferol (dosau MMR x 2). *GWELER: Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod)* Dylai staff beichiog ofyn am gyngor ar unwaith gan eu meddyg teulu neu fydwraig.<br>Anogwch yr holl staff i ddarganfod eu statws MMR - os nad ydynt yn siŵr, dylech eu cynghori i gysylltu â'u meddyg teulu i drafod. |
| **Clwy'r dwylo, y traed a'r genau (Haint Feirysol Coxsackie)** | **Dim** | **Nac oes** | • Mae lledaeniad yn cael ei achosi gan gyswllt uniongyrchol â secretiadau'r person heintiedig, (gan gynnwys ysgarthion), neu gan ledaeniad aerosol fel peswch a thisian.<br>• Gall y feirws aros yn y carthion am ychydig wythnosau ar ôl yr haint cychwynnol.<br>• Dylid annog unigolion i weithredu arferion hylendid dwylo da, yn enwedig y staff hynny sy'n newid cewynnau neu'n cynorthwyo gyda thoiled ar gyfer unigolion sydd â symptomau.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Clwy'r dwylo, y traed a'r genau | Peidiwch â'i ddrysu â chlefyd y traed a'r genau mewn anifeiliaid. Nid yw'n risg hysbys yn ystod beichiogrwydd, ond dylai unrhyw staff beichiog drafod gyda'u Bydwraig neu Feddyg Teulu. *GWELER: Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod).* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Impetigo**<br>(Mae heintiau mwynach a achosir gan streptococws grŵp A yn cynnwys y dwymyn goch, impetigo a 'gwddf strep'. Gellir trin y rhain yn hawdd â gwrthfiotiagau). | **OES,** gwaharddiad nes bod y rhannau yr effeithir arnynt yn ffurfio crawen ac wedi gwella, neu 48 awr ar ôl dechrau triniaeth gwrthfiotig. | **Nac oes** | • Annog unigolion i gynnal hylendid dwylo da.<br>• Peidiwch ag annog plant, pobl ifanc a staff i gyffwrdd neu grafu'r briwiau, neu adael i eraill eu cyffwrdd.<br>• Peidiwch â chaniatáu i dywelion, gwlanenni, brwsys dannedd ac offer bwyta ac yfed gael eu rhannu gan eraill.<br>• Sicrhewch fod offer, gan gynnwys teganau ac offer chwarae yn cael eu glanhau'n drylwyr bob dydd.<br>• Dylid sychu neu olchi eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Impetigo | Mae triniaeth wrthfiotig yn cyflymu iachâd ac yn lleihau'r cyfnod heintus. |
| **Y frech goch*** | **OES,** pedwar diwrnod o ddechrau'r frech. (Mae diwrnod cyntaf y frech yn cael ei gyfrif fel diwrnod 0). | **Oes,** oedd plentyn yn bresennol yn y lleoliad 4 diwrnod cyn a'r 4 diwrnod ar ôl i'r frech ymddangos. Fel arfer bydd meddyg teulu neu glinigydd yn hysbysu AWARe, (Iechyd Cyhoeddus Cymru). | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell. Mae hyn yn cynnwys teganau, eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>• Os oes modd, dylid trafod brechiad gyda'r rhieni/gwarcheidwaid os nad yw unigolyn wedi'i frechu.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y frech goch | Gellir ei atal trwy frechu ac mae wedi'i gynnwys yn yr amserlen imiwneiddio arferol (MMR x 2 ddos yw'r cynllun a argymhellir yn y Deyrnas Unedig). *GWELER: Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod).* Dylai unigolion beichiog gysylltu â'u Bydwraig neu Feddyg Teulu cyn gynted â phosibl i asesu eu himiwnedd. Anogwch yr holl staff i ddarganfod eu statws MMR. Os nad ydynt yn sicr, dylid eu cynghori i gysylltu â'u meddyg teulu i drafod. |
| **Molwscwm Contagioswm** | **Dim** | **Nac oes** | • Dylech ofyn am gyngor gan Fferyllydd neu Feddyg Teulu.<br>• Dylid cadw hylendid dwylo a hylendid personol arferol.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Molwscwm contagioswm | Cyflwr hunan-gyfyngol a all barhau am hyd at 18 mis. |
| **Tarwden** | **OES,** hyd nes y bydd triniaeth wedi cychwyn. | **Nac oes** | • Hylendid dwylo da.<br>• Parhau gyda lefel uchel o hylendid unigol.<br>• Os yw ar draed unigolion, gwnewch yn siŵr bod eu traed wedi'u gorchuddio.<br>• Sicrhewch fod glanhau amgylcheddol yn cael ei wneud bob dydd.<br>• Atgyfeiriwch at Feddyg Teulu<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Tarwden | Cadwch yr ardal dan sylw wedi'i gorchuddio. Argymhellir triniaeth |
| **Clefyd crafu** | **OES,** gall yr unigolyn yr effeithir arno ddychwelyd 24 awr ar ôl triniaeth gyntaf. | Dim ond os oes mwy na dau achos yn y lleoliad y dylech hysbysu'r Tîm Diogelu Iechyd, (yr un ystafell ddosbarth ac amserlen debyg). | • Dylai achosion yr effeithir arnynt ofyn am gyngor a thriniaeth gan naill ai meddyg teulu neu fferyllydd lleol.<br>• Nid oes angen gwahardd cysylltiadau aelwyd yr achos ond bydd angen eu trin ar yr un pryd â'r unigolyn yr effeithir arno.<br>• Peidiwch â rhannu tywelion na gwlanenni yn ystod cyfnod y driniaeth.<br>• Sicrhewch fod hylendid dwylo da yn cael ei gynnal.<br>• Ystyriwch lanhau dwfn yn achos dodrefn meddal/teganau meddal ac offer gwisgo i fyny os oes nifer o achosion yn yr un lleoliad. (Dylid amseru glanhau dwfn ar ôl y driniaeth gyntaf - gan gynnwys golchi dillad hefyd. Cynfasau gwely / blancedi / tywelion etc. – golchwch ar 60 gradd).<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y crafu | Mae angen triniaeth gydamserol ar aelwydydd a chysylltiadau agos |
| **Y dwymyn goch***<br>(Mae heintiau mwynach a achosir gan streptococws grŵp A yn cynnwys y dwymyn goch, impetigo a 'gwddf strep'. Gellir trin y rhain yn hawdd â gwrthfiotiagau) | **OES,** gall unigolion ddychwelyd ar ôl 24 awr lawn o wrthfiotigau priodol. Os na chânt eu trin â gwrthfiotigau, ni ddylai'r unigolyn ddychwelyd nes bod y symptomau wedi diflannu. | **OES, dim ond os** oes 2 neu fwy o achosion wedi'u cadarnhau mewn ystafell ddosbarth, o fewn 10 diwrnod i'w gilydd. Cysylltwch â'r Tîm Diogelu Iechyd os yw Ffliw a/neu frech yr ieir yn cylchredeg ar yr un pryd â'r dwymyn goch yn y lleoliad, neu os yw unigolyn wedi mynychu neu wedi bod yn yr ysbyty. | • Dylid hysbysu pob achos unigol o'r dwymyn goch i ICC drwy'r meddyg teulu neu'r clinigydd sy'n asesu'r unigolyn.<br>• Dylid annog hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell. Mae hyn yn cynnwys teganau, eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Efallai y dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr dros dro.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y dwymyn goch | Argymhellir triniaeth wrthfiotig ar gyfer yr unigolyn yr effeithir arno. Cysylltwch â'r Tîm Diogelu Iechyd os bydd y ffliw a/neu frech yr ieir yn cylchredeg ar yr un pryd a'r un lleoliad â'r dwymyn goch neu os ydych yn ymwybodol bod plentyn wedi mynychu neu wedi bod yn yr ysbyty oherwydd y dwymyn goch. |
| **Streptococws A. (gweler hefyd Tonsilitis)**<br><br>(Mae heintiau mwynach a achosir gan streptococws grŵp A yn cynnwys y dwymyn goch, impetigo a 'gwddf strep'. Gellir trin y rhain yn hawdd â gwrthfiotiagau) | **OES,** gall unigolyn ddychwelyd ar ôl 24 awr lawn o wrthfiotigau priodol. | **Na,** oni bai bod sawl achos, unrhyw unigolion yn yr ysbyty neu ei fod yn cyd-gylchredeg gyda brech yr ieir a/neu'r ffliw. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell. Mae hyn yn cynnwys teganau, eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dylid atal chwarae gyda dŵr neu dywod dros dro.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Streptococws Grŵp A (Strep A) | Bydd rhai Fferyllwyr yn cynnig swabio gwddf yn y man y darperir gofal i brofi am Streptococws Grŵp A. |
| **Clefyd/Syndrom y foch goch/y Pumed Clefyd/Parfofeirws B19** | **Dim** | **Nac oes** | • Mae angen i unrhyw unigolyn beichiog, (yn enwedig gyda beichiogrwydd o dan 20 wythnos), neu unrhyw unigolion ag imiwnedd gwan ofyn am gyngor clinigol naill ai gan eu meddyg teulu, bydwraig, neu eu Meddyg Ymgynghorol.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Syndrom y foch goch | *GWELER: Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod)*<br>Unwaith y bydd brech wedi ymddangos nid yw'r unigolyn bellach yn heintus, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | (ni all basio'r feirws ymlaen i eraill). Dylai unigolion beichiog gysylltu â'u Bydwraig neu eu Meddyg Teulu cyn gynted â phosibl. |
| **Yr eryr, (mae'r haint hwn yn cael ei achosi gan yr un feirws â brech yr ieir, gall y feirws hwn aros yn y corff ac weithiau caiff ei ail-actifadu, a'r enw am hyn yw yr eryr).** | Dim ond os yw'r frech yn diferu ac nad oes modd ei orchuddio y dylid cadw unigolyn i ffwrdd o'r lleoliad. | **Nac oes,** ond mae angen i chi roi gwybod i ICC os yw'n cyd-gylchredeg gyda'r dwymyn goch, y ffliw neu frech yr ieir. | • Os yw'r plentyn yn mynychu ysgol/meithrinfa, sicrhewch fod pob dresin yn lân, yn sych ac yn gyflawn.<br>• Os na, cysylltwch â rhieni/gwarcheidwaid i drafod casglu'r plentyn.<br>• Mewn achosion o'r eryr, bydd y penderfyniad i wahardd unigolyn yn dibynnu a ellir gorchuddio'r frech neu'r pothelli.<br><br>Cadwch yr unigolyn I ffwrdd o'r lleoliad os oes ganddo frech yr eryr na ellir ei gorchuddio<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Yr eryr | Yn gallu achosi brech yr ieir yn y rhai nad oes ganddyn nhw imiwnedd h.y., heb gael brech yr ieir. Mae'n cael ei ledaenu trwy gysylltiad â'r hylif fasgwlaidd o bothellau). Dylai unigolion beichiog gysylltu â'u Bydwraig neu eu Meddyg Teulu cyn gynted ag sy'n bosibl. GWELER: *Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod)* |
| **Dafadennau a Ferwcau** | **Dim** | **Nac oes** | • Dylid gorchuddio ferwcau mewn pyllau nofio, campfeydd ac ystafelloedd newid.<br>• GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Dafadennau a ferwcau | Gellir dod o hyd i driniaeth yn y Fferyllydd lleol neu Feddygfa'r Meddyg Teulu. |
| | | **Salwch gastroenteritis** | | |
| **Clostridioides Difficile (a elwid gynt yn Clostridium Difficile/C.diff)** | **OES,** aros i ffordd o'r lleoliad am 48 awr ar ôl symptom olaf. | Os oes unrhyw bryderon, cysylltwch â'r Tîm Diogelu Iechyd a fydd yn asesu'r digwyddiad. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Gwell glanhau amgylcheddol yn enwedig toiledau ac ardaloedd newid cewynnau.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Argymhellir bod cynnyrch sy'n seiliedig ar gannydd yn cael ei ddefnyddio yn unol â chanllawiau gweithgynhyrchwyr.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Clostridium difficile | Os oes dau neu fwy o achosion mewn lleoliad, gofynnwch am gyngor gan y Tîm Diogelu Iechyd. |
| **Cryptosporidiosis** | **OES,** aros i ffordd o'r lleoliad am 48 awr ar ôl symptom olaf. | Fel arfer, bydd hysbysiad yn dod i law gan feddyg teulu neu glinigydd i ICC ond bydd y Tîm Amgylcheddol Lleol yn ei ddilyn. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd<br>• Ni ddylai unigolion yr effeithir arnynt nofio am bythefnos ar ôl yr achos olaf o ddolur rhydd.<br>• Os ydych chi'n mynychu ffermydd mwytho a/neu fwydo anifeiliaid, sicrhewch fod unigolion yn cyflawni hylendid dwylo priodol yn syth ar ôl dod i gysylltiad ag anifeiliaid neu arwynebau.<br>• Gwell glanhau amgylcheddol yn enwedig toiledau ac ardaloedd newid cewynnau ac ardaloedd cyswllt cyffwrdd uchel. Mae hyn yn cynnwys teganau, eitemau na ellir eu golchi, er enghraifft dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Dolur rhydd a chwydu | Defnyddiwch fenig a ffedog wrth drin gwaed neu hylifau corfforol fel chwyd neu ddolur rhydd. Sicrhewch fod dillad wedi'u baeddu wedi'u storio'n gywir (ar wahân i ddillad cotiau glân etc.) Sicrhewch eich bod yn gwaredu cewynnau wedi'u baeddu yn iawn. |
| **Dolur rhydd a/neu chwydu**(gan gynnwys Norofirws – a elwir hefyd yr "bug chwydu'r gaeaf"). | **OES,** 48 awr wedi'r achos olaf o ddolur rhydd neu chwydu. | **Oes, dim ond Os** oes dau neu fwy o achosion mewn lleoliad tebyg, rhowch wybod i'r Tîm Diogelu Iechyd/Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell, gan roi sylw arbennig i'r toiledau ac ardaloedd cegin.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Dolur rhydd a chwydu<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Norofeirws<br><br>GIG 111 Cymru - Gwyddoniadur : Gwenwyn bwyd (wales.nhs.uk) | Defnyddiwch fenig a ffedog wrth drin gwaed neu hylifau corfforol fel chwyd neu ddolur rhydd. Sicrhewch eich bod yn gwaredu cewynnau wedi'u baeddu'n gywir. Os nodir achos penodol i'r dolur rhydd a'r chwydu, efallai y bydd cyngor gwahardd ychwanegol, er enghraifft E coli STEC a Hep A gyda'r Adran Amgylchedd Iechyd Lleol yn dilyn yr achos. |
| ***E. coli* O157 STEC* Teiffoid [a Pharateiffoid] (Twymyn Enterig) * Shigela* (Dysentri)** | **OES,** cadwch draw o'r lleoliad am 48 awr ar ôl yr achos olaf o ddolur rhydd **o leiaf**.<br><br>Efallai y bydd angen cadw rhai unigolion i ffwrdd o'r lleoliad nes nad ydynt bellach yn ysgarthu'r bacteria yn eu carthion. Efallai y bydd angen cliriad microbiolegol. Dylech bob amser ymgynghori â'ch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd lleol/Y Tîm Diogelu Iechyd. | **OES,** ond fel arfer ceir hysbysiad gan Feddyg Teulu neu Glinigydd. Bydd Tîm Iechyd yr Amgylchedd Lleol yn dilyn. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell, gan roi sylw arbennig i'r toiledau ac ardaloedd cegin.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Defnyddiwch fenig a ffedog wrth drin gwaed neu hylifau corfforol fel chwyd neu ddolur rhydd.<br>• Sicrhewch eich bod yn gwaredu cewynnau wedi'u baeddu'n gywir.<br>• Lledaenir person-i-person trwy gyswllt uniongyrchol â rhywun sydd â'r haint, yn enwedig o fewn teuluoedd a lleoliadau gofal plant. Mae achosion ac achosion achlysurol hefyd wedi'u cysylltu â thrin anifeiliaid. Felly, dylai oedolion oruchwylio plant ifanc wrth olchi eu dwylo yn ystod ymweliadau â sŵau anwesu a chanolfannau fferm. | Mae angen cadw unigolion 5 oed neu iau, y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cynnal hylendid personol da, trinwyr bwyd a staff gofal i ffwrdd o'r lleoliad nes bod prawf nad ydynt yn cario'r bacteria (clirio microbiolegol). Bydd eich Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'ch Tîm Diogelu Iechyd lleol yn rhoi cyngor ym mhob achos.<br><br>Efallai y bydd angen clirio |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Tîm Diogelu Iechyd/Swyddog Iechyd yr Amgylchedd | • Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Dolur rhydd a chwydu<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Norofeirws<br><br>GIG 111 Cymru - Gwyddoniadur : Gwenwyn bwyd (wales.nhs.uk) | Sicrhewch eich bod yn gwaredu cewynnau wedi'u baeddu'n gywir. Os nodir achos penodol i'r dolur rhydd a'r chwydu, efallai y bydd cyngor gwahardd ychwanegol, er enghraifft E coli STEC a Hep A gyda'r Adran Amgylchedd Iechyd Lleol yn dilyn yr achos. |
| ***E. coli* O157 STEC*<br>Teiffoid [a Pharateiffoid] (Twymyn Enterig) *<br>Shigela* (Dysentri)** | **OES,** cadwch draw o'r lleoliad am 48 awr ar ôl yr achos olaf o ddolur rhydd **o leiaf**.<br><br>Efallai y bydd angen cadw rhai unigolion i ffwrdd o'r lleoliad nes nad ydynt bellach yn ysgarthu'r bacteria yn eu carthion. Efallai y bydd angen cliriad microbiolegol. Dylech bob amser ymgynghori â'ch Swyddog Iechyd yr Amgylchedd lleol/Y Tîm Diogelu Iechyd. | **OES,** ond fel arfer ceir hysbysiad gan Feddyg Teulu neu Glinigydd. Bydd Tîm Iechyd yr Amgylchedd Lleol yn dilyn. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell, gan roi sylw arbennig i'r toiledau ac ardaloedd cegin.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Defnyddiwch fenig a ffedog wrth drin gwaed neu hylifau corfforol fel chwyd neu ddolur rhydd.<br>• Sicrhewch eich bod yn gwaredu cewynnau wedi'u baeddu'n gywir.<br>• Lledaenir person-i-person trwy gyswllt uniongyrchol â rhywun sydd â'r haint, yn enwedig o fewn teuluoedd a lleoliadau gofal plant. Mae achosion ac achosion achlysurol hefyd wedi'u cysylltu â thrin anifeiliaid. Felly, dylai oedolion oruchwylio plant ifanc wrth olchi eu dwylo yn ystod ymweliadau â sŵau anwesu a chanolfannau fferm. | Mae angen cadw unigolion 5 oed neu iau, y rhai sy'n ei chael hi'n anodd cynnal hylendid personol da, trinwyr bwyd a staff gofal i ffwrdd o'r lleoliad nes bod prawf nad ydynt yn cario'r bacteria (clirio microbiolegol). Bydd eich Swyddog Iechyd yr Amgylchedd a'ch Tîm Diogelu Iechyd lleol yn rhoi cyngor ym mhob achos.<br><br>Efallai y bydd angen clirio |
| | | | GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Dysentri<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Twymyn teiffoid<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Gwenwyn bwyd | microbiolegol hefyd ar gyfer y rhai sydd mewn cysylltiad agos ag achos o glefyd. Gall y Swyddog Iechyd Amgylcheddol/Tîm Diogelu Iechyd roi cyngor os oes angen. |
| **Salwch Anadlol Acíwt e.e., COVID-19 (Coronafeirws-19) * (Gweler hefyd y ffliw)** | Dylai plant a phobl ifanc sy'n sâl ac sydd â thymheredd uchel aros gartref ac osgoi cyswllt â phobl eraill lle gallant. Gallant fynd yn ôl i'r Ysgol, coleg neu ofal plant, ac ailddechrau gweithgareddau arferol pan and oes ganddynt dymheredd uchel mwyach, a'u bod yn ddigon iach i fynychu. | **Na**, ond gweler y sylwadau. | • Ni ddylai unigolion fynychu os oes ganddynt dymheredd uchel a'u bod yn sâl.<br>• Ni ddylai unigolion sydd â symptomau anadlol fynychu'r lleoliad tan eu bod yn well neu o leiaf 48 awr wedi i'r dwymyn glirio. Fodd bynnag, dylai unigolion sydd wedi profi'n bositif am **COVID** ddilyn y canllawiau lleol.<br>• Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br><br>111.wales.nhs.uk/selfassessments/symptomcheckers/covid19.aspx<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Annwyd, cyffredin<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Haint ar y frest, mewn oedolyn<br><br>Rheoli heintiau anadlol acíwt mewn ysgolion addysg arbennig \| LLYW.CYMRU<br><br>Cyngor ar feirysau anadlol gan gynnwys COVID-19 i staff ym maes iechyd a gofal cymdeithasol ac ysgolion arbennig \| LLYW.CYMRU<br><br>Canllawiau i bobl sydd â symptomau haint anadlol, gan gynnwys COVID-19 \| LLYW.CYMRU | Gall unigolion sydd â symptomau ysgafn fel trwyn yn rhedeg, a chur pen sydd fel arall yn iach barhau i fynychu eu lleoliad. Cysylltwch â ICC os oes mwy o staff yn absennol nag a brofwyd yn y gorffennol a/neu os oes cynnydd cyflym yn nifer absenoldebau staff neu fyfyrwyr oherwydd haint anadlol acíwt. Tystiolaeth o glefyd difrifol oherwydd haint anadlol, er enghraifft os yw plentyn, person ifanc neu aelod o |
| | | | | staff yn cael ei dderbyn i'r ysbyty.<br><br>*GWELER: Unigolion Bregus a Beichiogrwydd (isod) a chyngor Llywodraeth Cymru ar Bobl sydd â Risg Uwch o'r Coronafeirws* |
| **Ffliw** | **OES,** 5 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau. Yn gallu dychwelyd pan nad oes ganddynt symptomau mwyach. Dylai achosion sy'n sâl ac sydd â thymheredd uchel aros gartref ac osgoi cyswllt ag eraill, lle y gallant. Gallant ddychwelyd i amgylcheddau gofal plant ac addysg pan nad oes ganddynt dymheredd uchel mwyach am 48 awr, a'u bod yn ddigon da i fynychu. | **OES, dim ond os** yw Ffliw a / neu frech yr ieir yn cylchredeg ar yr un pryd â'r dwymyn goch yn y lleoliad. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Efallai y dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr dros dro.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y ffliw<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Brechlyn ffliw, Tymhorol | *GWELER: Unigolion bregus a beichiogrwydd (isod).*<br>Anogwch y rhai sy'n gymwys i gael y brechlyn ffliw. |
| **Twbercwlosis*** | Ymgynghorwch â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser. Dim ond ar gyfer llid twbercwlosis (gweithredol) yr | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | Cefnogwch unigolion sydd â TB heintus i ddychwelyd i'w lleoliad neu weithgareddau arferol yn unol â chyngor clinigol. Mae hyn fel arfer ar ôl pythefnos o driniaeth wrthfiotig effeithiol a ragnodir gan wasanaethau TB arbenigol, ac os ydynt yn ddigon da.<br><br>• https://www.nhs.uk/conditions/tuberculosis-tb/ | Angen cyswllt agos hir i ledaenu Dim ond TB ysgyfeiniol (yr ysgyfaint) sy'n heintus i eraill, ac |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | argymhellir gwaharddiad. | | • https://www.gov.uk/government/publications/tuberculosis-tb-and-children<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Twbercwlosis | mae angen cyswllt agos, hirfaith i ledaenu.<br>Nid oes angen gwahardd brodyr a chwiorydd cleifion a gadarnhawyd yn heintus â TB o leoliadau, oni bai eu bod yn cael eu cynghori gan arbenigwr TB. |
| **Y pâs (pertussis)*** (gellir ei gyfeirio ato fel "peswch 100 diwrnod**)** | OES, gweler y meini prawf:<br>Dylai **plant** gael eu gwahardd o ysgolion neu feithrinfeydd am 48 awr ar ôl dechrau gwrthfiotigau, neu am 14 diwrnod ar ôl i beswch ddechrau os nad ydynt yn cael eu trin.<br><br>**Dylai staff sy'n gweithio mewn meithrinfeydd a lleoliadau gofal plant eraill sy'n darparu gofal i fabanod mewn grŵp blaenoriaeth** (er enghraifft, mewn ystafelloedd babanod meithrin) gael eu gwahardd am 48 awr ar ôl i'r gwrthfiotigau a argymhellir ddechrau, neu am 21 diwrnod ar ôl i'r peswch ddechrau os na chaiff ei drin.<br><br>**Dylai staff mewn lleoliadau meithrin a gofal plant eraill, ysgolion a lleoliadau addysgol eraill** gael eu gwahardd am 48 awr ar ôl i'r gwrthfiotigau ddechrau, neu am 14 diwrnod ar ôl i'r peswch ddechrau os na chaiff ei drin.<br><br>Dylai **gweithwyr gofal iechyd** sy'n darparu gofal personol agos i fabanod yng Ngrŵp blaenoriaeth 1, neu i fenywod beichiog, gael eu gwahardd o'r gwaith cyn gynted ag yr amheuir diagnosis o pertwsis, tan 48 awr ar ôl dechrau gwrthfiotigau, neu am 21 diwrnod ar ôl i'r peswch ddechrau. Os na chaiff ei drin. Dylai'r gweithwyr gofal iechyd hefyd hysbysu ei adran iechyd galwedigaethol a'i dîm rheoli atal heintiau cyn gynted â phosibl - a dylai wneud hynny hyd yn oed os yw'r tu hwnt i 21 diwrnod o ddechrau'r peswch gan y gallai cysylltiadau agored i niwed fod o fewn eu cyfnod magu o hyd. | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dylid annog plant i beidio â chwarae gydag eitemau/teganau na ellir eu glanhau'n effeithiol.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>• Os yw'n bosibl, trafodwch frechiad gyda rhieni/gwarcheidwaid os nad yw unigolyn wedi'i frechu.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Y pâs | Gellir ei atal drwy frechu ac mae wedi'i gynnwys yn amserlen imiwneiddio arferol y DU. Ar ôl triniaeth, gall pesychu nad yw'n heintus barhau am wythnosau lawer.<br>Dylid cynghori unigolion, rhieni neu ofalwyr i ofyn am gyngor gan eu Meddyg Teulu os ydynt yn perthyn i gategoriau risg uchel, megis unigolion beichiog ag imiwnedd isel, neu bobl heb eu brechu. |
| | | **Salwch arall** | | |
| **Llid yr amrantau** | **Nac oes** | **Nac oes** | • Dylid cynghori unigolion, rhieni neu ofalwyr i ofyn am gyngor gan eu Fferyllydd lleol.<br>• Anogwch yr unigolyn i beidio â rhwbio ei lygaid ac i olchi ei ddwylo'n aml.<br>• Cynghorwch yr unigolyn yr effeithir arno i osgoi rhannu tywelion, gwlanenni a gobenyddion.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Llid yr amrantau | Dylid cynghori unigolion, rhieni neu ofalwyr i ofyn am gyngor gan eu Fferyllydd neu feddyg teulu lleol. |
| **Difftheria*** | **OES,** ni ddylai fynychu'r lleoliad. Ymgynghorwch â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser. | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | Bydd y Tîm Diogelu Iechyd yn ystyried y risg o unrhyw gyswllt y mae'r unigolyn wedi'i gael gydag eraill os oes angen.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Difftheria | Gellir ei atal drwy frechu ac mae wedi'i gynnwys yn Amserlen Imiwneiddio Arferol y DU. Rhaid cadw cysylltiadau teuluol i ffwrdd o'r lleoliad nes eu bod |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | yn cael eu clirio i ddychwelyd gan y Tîm Diogelu Iechyd. |
| **Heintiau llygaid a chlustiau** | **Dim** | **Nac oes** | • Dylid cynghori unigolion, rhieni neu ofalwyr i ofyn am gyngor gan eu Fferyllydd lleol.<br>• Anogwch yr unigolyn i beidio â rhwbio ei lygaid na'i glustiau ac i olchi ei ddwylo'n aml.<br>• Cynghorwch yr unigolyn yr effeithir arno i osgoi rhannu tywelion, gwlanenni a gobenyddion.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Anafiadau i'r llygaid<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Haint ar y glust | Oherwydd y gall feirysau a bacteria achosi heintiau ar y llygaid a'r glust, ni fydd angen triniaeth wrthfiotig ar bob un. |
| **Twymyn y chwarennau** | **Dim** | **Nac oes** | • Annog unigolion i weithredu arferion hylendid dwylo a hylendid anadlol da.<br>• Mae'r feirws i'w gael ym mhoer pobl sydd wedi'u heintio a gellir ei ledaenu trwy gyswllt uniongyrchol â phoer fel cusanu, bod yn agored i beswch a thisian, a rhannu offer bwyta ac yfed.<br>• Gellir ei ledaenu hefyd trwy gyswllt anuniongyrchol trwy wrthrychau halogedig os nad yw'r dwylo'n cael eu golchi'n ddigonol.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Twymyn y chwarennau | Yn heintus am hyd at 7 wythnos cyn i'r symptomau ddechrau. Gall twymyn y chwarennau achosi i'r ddueg chwyddo, felly dylid osgoi chwaraeon neu weithgareddau a allai gynyddu'r risg o gwympo a niweidio'r ddueg. |
| **Llau pen** | **Dim** | **Nac oes** | • Dylid annog rhieni neu ofalwyr i archwilio'r pen yn rheolaidd a darparu gofal gwallt da i helpu i nodi a thrin llau pen yn gynnar.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Llau pen | Argymhellir triniaeth dim ond mewn achosion lle mae llau byw wedi'u gweld. Ewch i'ch fferyllydd lleol i gael cyngor a thriniaeth. |
| **Hepatitis A*** | **OES,** dylid cadw unigolyn i ffwrdd o'r lleoliad tan saith diwrnod ar ôl i'r clefyd ddechrau (neu saith diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau os nad oes clefyd melyn). Mae diwrnod cyntaf y clefyd melyn yn cael ei gyfrif fel diwrnod 0 | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Gwell glanhau amgylcheddol yn enwedig ardaloedd toiled.<br>• Dylid gwisgo menig a ffedog wrth newid cewynnau wedi'u baeddu.<br>• Dylid storio cewynnau wedi'u baeddu i ffwrdd o ddillad ac ardaloedd glân tan y gellir eu gwaredu'n gywir.<br>• Dylid sychu teganau ac eitemau na ellir eu golchi; er enghraifft, dylid sychu neu olchi teganau meddal gyda glanedydd gan ddefnyddio dŵr cynnes a'u sychu'n drylwyr.<br>• Dros dro, dylid atal chwarae gyda thywod neu ddŵr.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Hepatitis A | Os oes dau neu fwy o achosion mewn lleoliad bydd y Tîm Diogelu Iechyd yn cynghori ar y mesur rheoli a allai gynnwys brechiadau.<br><br>Dylid addysgu pobl ifanc ynghylch rhyw diogel i'w hamddiffyn rhag haint hepatitis (a heintiau eraill a drosglwyddir yn rhywiol) trwy gyswllt rhywiol. Mae cynllun gwersi ar gael i gefnogi. |
| **Hepatitis B*, C*, HIV** | **Dim** | Fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | Lle bu arllwysiad gwaed, trwyn yn gwaedu, clwyf yn gwaedu neu unrhyw halogiad gwaed, dilynwch y canllawiau isod<br><br>• Sicrhewch fod cyfarpar diogelu personol cywir yn cael ei wisgo.<br>• Hylendid dwylo da.<br>• Gwaredu eitemau a ddefnyddiwyd sydd ag ôl gwaed arnyn nhw'n gywir.<br>• Sicrhau bod dillad ag ôl gwaed arnyn nhw'n cael eu storio ar wahân a bod gwarcheidwaid/rhieni yn cael eu cynghori i'w golchi ar wahân ar dymheredd uchel cyn gynted â phosibl.<br>• Ni ddylai fod unrhyw rannu brwsys dannedd neu eillwyr/raseli.<br>• Glanhewch yr ardal gyda'r glanhawr/diheintydd priodol<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Hepatitis B | Mae hepatitis B ac C a HIV yn feirysau a gludir gan waed nad ydynt yn heintus trwy gyswllt cymdeithasol arferol. |
| | | | GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Hepatitis C<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : HIV ac AIDS | |
| **Meningitis Meningococol /Septisemia*** | **OES,** nes eu bod wedi derbyn y driniaeth wrthfiotig briodol. Ymgynghorwch â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser. | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Dylid gwahardd yr unigolyn sydd wedi'i heintio nes ei fod wedi cael ei drin â gwrthfiotigau a'i fod yn ddigon da i ailddechrau gweithgareddau arferol.<br>• Peidiwch â gwahardd cysylltiadau agos a phobl yn y cartref oni bai bod ganddynt symptomau sy'n awgrymu haint meningococol.<br>• Trafodwch frechu gyda rhieni/gwarcheidwaid os nad yw'r unigolyn wedi'i frechu.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Meningitis | Gellir atal sawl math o glefyd meningococol trwy frechu. Bydd ICC yn cysylltu â lleoliadau unigol os oes angen cymryd camau pellach. |
| **Haemophilus Influenzae Math B (Hib) Meningitis/septisemia*** | **OES,** nes eu bod wedi derbyn y driniaeth wrthfiotig briodol. Ymgynghorwch â'r Tîm Diogelu Iechyd bob amser. | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Nid oes meddyginiaeth effeithiol ar gyfer trin meningitis firaol, ond fel arfer mae'r symptomau'n llawer llai.<br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Hib (Haemophilus influenzae math b) | Gellir atal Haemophilus Influenzae Math B (Hib) trwy frechiad ac mae'n rhan o Amserlen Imiwneiddio Plentyndod Arferol y DU. Nid oes rheswm i gadw brodyr a chwiorydd neu gysylltiadau agos eraill yr unigolyn yr effeithir arnynt rhag mynychu lleoliadau. Os bydd dau neu fwy o achosion o fewn 4 wythnos, |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cysylltwch â'r Tîm Diogelu Iechyd. |
| **Meningitis firaol*** | **Nac oes** | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Nid oes angen glanhau gwell ond dylid parhau ag amserlenni glanhau arferol.<br>• Hylendid dwylo da<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Meningitis | Salwch ysgafnach. Nid oes angen i'r Tîm Diogelu Iechyd nodi pobl y mae'r unigolyn wedi bod mewn cysylltiad â nhw. Nid oes unrhyw reswm i wahardd brodyr a chwiorydd a chysylltiadau agos eraill yr unigolyn yr effeithir arnynt o leoliadau. |
| **Staffylococws Awrews sydd ag ymwrthedd i Fethisilin (MRSA)** | **Dim** | Fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell.<br>• Dylid gorchuddio'r clwyfau.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : MRSA | Mae hylendid da, yn enwedig golchi dwylo a glanhau amgylcheddol, yn bwysig er mwyn lleihau lledaeniad. |
| **Clwy'r pennau*** | **OES**, bum diwrnod ar ôl i'r ên / gwddf ddechrau chwyddo. | **OES,** ond fel arfer derbynnir hysbysiad gan feddyg teulu neu glinigydd. | • Hylendid dwylo da.<br>• Mwy o lanhau pwyntiau cyffwrdd.<br>• Glanhau amgylcheddol gwell.<br>• Annog "Etiquette peswch" da – neges Ei Ddal. Ei Daflu. Ei Ddifa.<br>• Trafodwch frechu gyda rhieni/gwarcheidwaid os nad yw'r unigolyn wedi'i frechu.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Clwy'r Pennau | Gellir ei atal trwy frechu ac mae'n cael ei gynnwys yn yr Amserlen Imiwneiddio Arferol (dosau MMR x 2). Dylid annog pob plentyn ac aelod o staff i gael eu brechu. Gweler Staff Bregus. |
| **Llyngyr Edau** | **Dim** | **Nac oes** | • Gall fferyllfeydd roi cyngor ar driniaeth. | Mae triniaeth yn cael ei hargymell |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | • Mae ail-heintio yn gyffredin ac mae wyau heintus hefyd yn cael eu lledaenu i eraill yn uniongyrchol ar fysedd neu'n anuniongyrchol ar ddillad gwely, dillad a llwch amgylcheddol.<br>• Gall golchi dwylo, golchi dillad a glanhau rheolaidd helpu i leihau'r risg o haint ac ail-heintio.<br>• Mae trosglwyddo yn anghyffredin mewn lleoliadau addysg neu ofal plant.<br>• Dylid cadw'r ewinedd bysedd yn fyr.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Llyngyr Edau | ar gyfer y plentyn a chysylltiadau aelwyd - dylent gysylltu â'u fferyllydd neu feddyg teulu |
| **Tonsilitis** | **Dim fel arfer**. Os yw tonsilitis yn cael ei achosi gan *Streptococws Grŵp A* (y cyfeirir ato weithiau fel 'Gwddf Strep'), gall unigolyn ddychwelyd 24 awr ar ôl dechrau triniaeth wrthfiotig briodol. | **Nac oes** | • Ar gyfer dolur gwddf dros gyfnod hir, cysylltwch â'ch fferyllfa leol a allai fod â phrawf yn y man y darperir gofal i nodi haint strep Grŵp A, fel y gellir ei drin wedyn.<br><br>GIG 111 Cymru - Iechyd A-Y : Tonsilitis | Mae yna lawer o bethau sy'n gallu achosi tonsilitis, ond mae'r rhan fwyaf o achosion yn digwydd oherwydd feirysau ac felly nid oes angen gwrthfiotigau. Triniaeth wrthfiotig a argymhellir ar gyfer yr unigolyn yr effeithir arno os yw'r Tonsilitis yn cael ei achosi gan *Streptococws Grŵp A* ('Strep A'). |

***Yn dynodi clefyd/organeb hysbysadwy. Mae'n ofyniad statudol i feddygon roi gwybod am glefyd hysbysadwy i Swyddog Priodol yr Awdurdod Lleol (fel arfer Ymgynghorydd Rheoli Clefydau Trosglwyddadwy/Diogelu Iechyd).*

**Unigolion bregus**
Mae rhai cyflyrau meddygol yn gwneud pobl yn agored i heintiau na fyddent yn ddifrifol yn y rhan fwyaf o bobl. Mae'r rhain yn cynnwys y rhai sy'n cael eu trin am lewcemia neu ganserau eraill, ar ddosau uchel o steroidau ac sydd â chyflyrau eraill sy'n lleihau imiwnedd yn ddifrifol.

**Beichiogrwydd**
Os bydd menyw yn datblygu brech yn ystod beichiogrwydd neu mewn cysylltiad uniongyrchol â rhywun sydd â brech neu haint, dylent ofyn i'w meddyg teulu/bydwraig a oes angen unrhyw ymchwiliadau perthnasol arnynt e.e., prawf gwaed. Daw'r risg fwyaf yn ystod beichiogrwydd o ganlyniad i haint gan eu plentyn/plant eu hunain, yn hytrach na'r gweithle.
GIG 111 Cymru – Canllaw Beichiogrwydd

**Imiwneiddio**
Anogir pob unigolyn i sicrhau eu bod wedi derbyn yr holl frechlynnau sy'n cael eu cynnig yn amserlen y DU. Os oes unrhyw un yn ansicr pa frechlynnau maen nhw wedi'u derbyn fe ddylen nhw gysylltu â'u meddygfa. I gael rhagor o wybodaeth am yr amserlen imiwneiddio, ewch i'r adran frechu yn GIG 111 Cymru - Brechiadau

**Gellir dod o hyd i wybodaeth arall** ar https://111.wales.nhs.uk

**Gellir dod o hyd i ganllawiau pellach ar Atal a Rheoli Heintiau yn**
Canllawiau - Iechyd Cyhoeddus Cymru (GIG.cymru)
Infection Prevention & Control - Public Health Wales (nhs.wales)
Cyngor ac arweiniad ar gyfer lleoliadau gofal plant, cyn ysgol ac addysgol - Iechyd Cyhoeddus Cymru (gig.cymru)

**Ymgyrch Ei Ddal, Ei Daflu, Ei Ddifa** Poster Ei Ddal, Ei Daflu, Ei Ddifa Poster Ei Ddal, Ei Daflu, Ei Ddifa - Rheoli Atal Heintiau Ei ddal, Ei Daflu, Ei Ddifa - Ymgyrch hylendid anadlol a dwylo (2011) - GOV.UK (www.gov.uk)